CPS

# Adroddiad ar drosedd casineb

2008 – 2009

CANGEN GWYBODAETH REOLI

# Mynegai


| | |
|---|---|
| Rhagair gan y Cyfarwyddwr Erlyniadau Cyhoeddus | 2 |
| Crynodeb Gweithredol | 3 |
| Cyflwyniad | 5 |
| Canfyddiadau Allweddol am Drosedd Casineb | 8 |
| Troseddau Gwaethygol Hiliol a Chrefyddol | 18 |
| Canfyddiadau Allweddol am Troseddau Gwaethygol Hiliol a Chrefyddo | 20 |
| Trosedd Homoffobig a Thrawsffobig | 29 |
| Canfyddiadau Allweddol am Drosedd Homoffobig | 30 |
| Trosedd Casineb tuag at Bobl Anabl | 39 |
| Canfyddiadau Allweddol am Drosedd Casineb tuag at Bobl Anabl | 41 |
| Atodiad 1: Erlyniadau yn ôl Rhanbarth | 50 |
| Rhestr Termau | 54 |

# Rhagair gan y Cyfarwyddwr Erlyniadau Cyhoeddus

Rwy'n hynod o falch o gyflwyno ail adroddiad blynyddol y CPS ar drosedd casineb ar gyfer 2008-09.

Mae trosedd casineb yn fater o hawliau dynol. Mae gan bobl o bob cymuned ddisgwyliad cyfreithlon i gael eu diogelu rhag y rhagfarn a'r gwahaniaethu sydd wrth wraidd trosedd casineb. Mae dod â throseddau casineb gerbron llys yn hanfodol er mwyn diogelu'n briodol fel hyn ac er mwyn ennyn hyder yr holl gymunedau yr ydym yn bodoli i'w gwasanaethu. Rwy'n benderfynol y byddwn yn chwarae ein rhan.

Rwy'n falch o weld y cynnydd a wnaeth y CPS dros y blynyddoedd. Rydym wedi cyrraedd y targed cyffredinol ar drosedd casineb, wedi cynnal ein perfformiad da o ran erlyn trosedd casineb hiliol a chynyddu faint o achosion trosedd casineb yn erbyn pobl anabl, a homoffobig a thrawsffobig, sy'n cael eu herlyn. Fodd bynnag, y mae yna beth ffordd i fynd o hyd. Mae angen gwella ein gwybodaeth ddemograffig am ddioddefwyr a thystion ac mae angen i ni ganolbwyntio ein hymdrechion er mwyn parhau i gynyddu niferoedd yr achosion trosedd casineb tuag at bobl anabl yn arbennig.

Rydym yn datblygu ein menter hynod lwyddiannus ac arloesol i sefydlu paneli craffu ar drosedd casineb. Maent yn rym o blaid gwelliannau ar lefel leol. Rydym yn parhau i gymryd rhan mewn rhaglenni cenedlathol i wella'r ymateb ehangach i drosedd casineb. Er enghraifft, cyhoeddwyd cynllun gweithredu trosedd casineb ar draws y llywodraeth ym mis Medi 2009. Mae'r rhaglen hon yn dwyn ynghyd amryfal adrannau'r llywodraeth gan amrywio o'r Adran Iechyd, yr Adran Plant, Ysgolion a Theuluoedd i'r Swyddfa Gartref, a Gwasanaeth Erlyn y Goron. Mae'r Cynllun Gweithredu yn dangos ymrwymiad y Llywodraeth i fynd i'r afael â chylch oes trosedd casineb ar ei amryfal gamau gan gynnwys: atal, adrodd, cefnogi dioddewyr, erlyn, dedfrydu a phrofiannaeth.

Mae eleni yn ddeng mlynedd ers cyhoeddi Adroddiad Stephen Lawrence. Hoffwn nodi'r pen-blwydd pwysig hwn trwy dalu teyrnged i waith Doreen a Neville Lawrence ac eraill. Trwy eu gwaith hwy, y gallwn oll fod yn falch ohono, sefydlwyd glasbrint cadarn ar gyfer y polisi a'r gyfraith er mwyn ymdrin â throsedd casineb yn y wlad hon.

# Crynodeb Gweithredol

Dyma ail Adroddiad Blynyddol Gwasanaeth Erlyn y Goron (CPS) ar Drosedd Casineb, ac mae'n cyflwyno gwybodaeth ar berfformiad y CPS wrth erlyn trosedd casineb hiliol a chrefyddol, trosedd trawsffobig a homoffobig a throsedd casineb tuag at bobl anabl. Mae'r CPS wedi adrodd am ei berfformiad ym maes trosedd casineb mewn nifer o ffyrdd a, than eleni, mae wedi cynnwys trais yn y cartref o fewn ei fesur ar drosedd casineb. Erbyn hyn mae trais yn y cartref yn cael ei fesur fel rhan o ddangosydd Trais yn erbyn Menywod, ac adroddir amdano yn Adroddiad Trais yn erbyn Menywod a gyhoeddir eleni hefyd.

## Trosedd casineb: Canfyddiadau allweddol cyffredinol

- Yn y pedair blynedd a ddaeth i ben ym mis Mawrth 2009, erlynwyd dros 49,200 diffynnydd am droseddau casineb
- Cododd y gyfradd euogfarnu o 74% yn 2005-06 i 82% yn 2008-09
- Cododd pledion euog o 64% i 69%
- Aethpwyd y tu hwnt i'r targed o ostwng canlyniadau aflwyddiannus i 18% erbyn pedwerydd chwarter y flwyddyn, gyda ffigur o 17.5%
- Fe gododd cyfran yr achosion a fethodd oherwydd rhesymau allweddol fel materion gyda dioddefwyr (gan gynnwys tynnu cyhuddiadau yn ôl, methu mynychu a ble nad oedd tystiolaeth y dioddefwyr yn cefnogi'r achos), rhyddfarnu yn dilyn treial ac elfen gyfreithiol hanfodol ar goll, o 58% i 66% o'r holl ganlyniadau aflwyddiannus
- Dynion oedd mwyafrif y diffynyddion ar draws y llinynnau trosedd casineb
- Mae data ar ddemograffeg dioddefwyr yn llai cyflawn ac yn parhau i gael ei ddatblygu. Fodd bynnag, ble mae'r rhyw yn hysbys, dynion oedd y gyfran fwyaf o ddioddefwyr ar draws pob llinyn, yn 68% o'r cyfanswm
- Y troseddau mwyaf cyffredin i gael eu herlyn oedd troseddau corfforol a throseddau trefn gyhoeddus (43% a 40% o'r cyfanswm yn y drefn honno)
- Nodwyd bod 75% o ddiffynyddion troseddau casineb yn perthyn i'r Categori Gwyn Prydeinig, a dosbarthwyd 79% yn ddiffynyddion Gwyn.

## Trosedd hiliol a chrefyddol: canfyddiadau allweddol

- Yn y pedair blynedd a ddaeth i ben ym mis Mawrth 2009, erlynwyd dros 45,200 diffynnydd am droseddau involving racist or religious crime
- Cododd euogfarnau o 74% yn 2005-06 i 82% yn 2008-09.
- Cododd pledion euog o 64% i ychydig dan 70%
- Aethpwyd y tu hwnt i darged y CPS o ostwng canlyniadau aflwyddiannus i 18%, gyda ffigur o 16.9% yn chwarter olaf 2008-09
- Roedd y rhesymau mwyaf cyffredin dros ganlyniadau aflwyddiannus yn cynnwys rhyddfarnu ac elfen gyfreithiol hanfodol ar goll. Fodd bynnag bu cynnydd yn yr achosion a fethodd oherwydd materion gyda dioddefwyr gan gynnwys methu mynychu'r llys, a'r achosion hynny ble nad oedd tystiolaeth y dioddefwyr yn cefnogi'r achos
- Dynion oedd mwyafrif y diffynyddion ar 85%
- Troseddau corfforol a throseddau trefn gyhoeddus oedd y mwyaf cyffredin (84%)
- Yn 2008-09, nodwyd bod 75% o ddiffynyddion troseddau gwaethygol hiliol a chrefyddol yn perthyn i'r categori Gwyn Prydeinig.

## Trosedd homoffobig a thrawsffobig: canfyddiadau allweddol

- Yn y pedair blynedd a ddaeth i ben ym mis Mawrth 2009, erlynwyd dros 3,400 diffynnydd am droseddau homoffobig neu drawsffobig
- Dros yr un cyfnod, cododd euogfarnau o 71% i 81%
- Cododd pledion euog o 58% i 67%
- Targed 2008-09 oedd gostwng canlyniadau aflwyddiannus i 18%. Roedd y canlyniadau y tu allan i'r targed, ar 20.8% erbyn y pedwerydd chwarter
- Rhyddfarnau ac elfen gyfreithiol hanfodol ar goll oedd yn gyfrifol am fwyafrif y canlyniadau aflwyddiannus
- Er bod nifer y canlyniadau aflwyddiannus oherwydd anawsterau dioddefwyr wedi cynyddu o 2006-07 i 2008-09, bu cwymp bach mewn termau cyfrannol, o 5% i lai na 4%.
- Dynion oedd mwyafrif y diffynyddion (86%)
- Troseddau corfforol oedd y troseddau mwyaf cyffredin
- Nodwyd bod 78% o ddiffynyddion yn perthyn i'r categori Gwyn Prydeinig.

## Trosedd casineb tuag at bobl anab: canfyddiadau allweddol

- 2008-09 yw'r ail flwyddyn i wybodaeth am berfformiad ar drosedd casineb tuag at bobl anabl gael eu cadw
- Yn y ddwy flynedd yn diweddu Mawrth 2009, erlynwyd 576 diffynnydd am drosedd casineb tuag at bobl anabl
- Arweiniodd 76% o achosion at euogfarnu
- Roedd y gyfradd pledion euog yn 61%
- Roedd elfen gyfreithiol hanfodol ar goll yn gyfrifol am fwy o ganlyniadau aflwyddiannus na materion gyda dioddefwyr. Dynion oedd 79% o'r diffynyddion a erlynwyd
- Troseddau corfforol oedd y troseddau mwyaf cyffredin. Roedd trefn gyhoeddus, dwyn a thrafod nwyddau wedi'u dwyn hefyd yn gyffredin
- Nodwyd bod 78% o ddiffynyddion yn perthyn i'r categori Gwyn Prydeinig.

# Cyflwyniad

Dyma ail adroddiad blynyddol Gwasanaeth Erlyn y Goron (CPS) ar berfformiad ym maes Trosedd Casineb. Mae'r adroddiad yn ymdrin ag amrediad o linynnau trosedd casineb ar gyfer 2008-09:

- Trosedd casineb hiliol a chrefyddol
- Trosedd casineb homoffobig a thrawsffobig
- Trosedd casineb tuag at bobl anabl.

Cafodd y troseddau hyn eu grwpio o fewn y dangosydd trosedd casineb am eu bod yn droseddau a ganfyddir gan y dioddefwr neu unrhyw berson arall yn rhai a ysgogir gan elyniaeth neu ragfarn ar sail ethnigrwydd, anabledd, crefydd neu gyfeiriadedd rhywiol. Mae'r CPS yn cydnabod bod pobl trawsrywiol hefyd yn profi troseddau ar sail gelyniaeth tuag at eu hunaniaeth o ran rhywedd.

Os bydd rhywun yn cael ei dargedu oherwydd pwy 'yw' ef neu hi, yna mae hynny'n arbennig o niweidiol ac yn arunigo'r unigolyn, a gall gael effaith sylweddol ar iechyd ac ymdeimlad o les yr unigolyn. Rydym eisiau i ddioddefwyr trosedd casineb, eu teuluoedd, cymunedau a'r cyhoedd yn gyffredinol fod yn hyderus bod y CPS yn deall natur ddifrifol y troseddau hyn, a'i fod yn ymrwymo i chwarae ei ran yn dod â'r troseddau hyn gerbron llys.

Mae'r CPS yn deall, er mwyn meithrin hyder, bod yn rhaid i ni fod yn eglur ynghylch ein perfformiad. Eleni, rydym wedi adeiladu ar ein hadroddiad blynyddol cyntaf ar drosedd casineb, a gyhoeddwyd yn 2008. Mae'r adroddiad hwn yn canolbwyntio'n benodol ar droseddau casineb, yn cyflwyno gwybodaeth am berfformiad dwy flynedd o ran trosedd casineb tuag at bobl anabl ac yn cynnig dadansoddiad manylach o dueddiadau mewn achosion aflwyddiannus. Lle bo modd, mae perfformiad 2008-09 wrth erlyn y llinynnau trosedd casineb yn cael ei gymharu â blynyddoedd blaenorol a rhoddir gwybodaeth am waith cyfredol ac i'r dyfodol. Mae'r data gorau sydd ar gael yn cael ei gyflwyno, gan gydnabod rhai diffygion o ran ansawdd. Rydym wedi ymrwymo i weld gwelliant parhaus yn y maes hwn.

Er bod yr adroddiad hwn yn canolbwyntio'n bennaf ar asesiad meintiol o erlyniadau ar draws trosedd casineb, rydym yn cydnabod nad yw 'llwyddiant' ym maes trosedd casineb yn rhywbeth a fesurir gan welliannau mewn canlyniadau yn unig. Mae tegwch ac effeithlonrwydd yn rhan annatod o'n holl waith erlyn. Dyna pam rydym yn parhau i ddadansoddi ein penderfyniadau erlyn er mwyn adnabod unrhyw anghyfartaleddau o ran diffynyddion o gefndiroedd du a lleifrifoedd ethnig a diffynyddion anabl, a gweithredu lle bo tystiolaeth y gallai ein penderfyniadau cyhuddo fod yn anghymesur.

## Trosedd Casineb: cyd-destun ehangach y llywodraeth

Mae ymrwymiad yn tyfu ar draws y llwyodraeth i fynd i'r afael â throsedd casineb. Ar 14 Medi, 2009 cyhoeddodd y Swyddfa Gartref y Cynllun Gweithredu ar Drosedd Casineb[2]. Mae'r rhaglen waith hon yn dwyn ynghyd amryfal adrannau'r llywodraeth ac asiantaethau, o'r Adran Iechyd, yr Adran Plant, Ysgolion a Theuluoedd, i'r Swyddfa Gartref, a'r CPS. Mae'r Cynllun Gweithredu yn dangos ymrwymiad y Llywodraeth i fynd i'r afael â chylch oes trosedd casineb ar ei amryfal gamau gan gynnwys: atal, adrodd, cefnogi dioddefwyr, erlyn, dedfrydu a phrofiannaeth. Mae'r CPS wedi chwarae rhan bwysig yn natblygiad y cynllun hwn a bydd yn allweddol i'w gyflawniad.

[1] Am wybodaeth ynghylch cydraddoldeb cyhuddo y CPS ac asesiadau effaith ym maes amrywiaeth gweler www.cps.gov.uk
[2] www.homeoffice.gov.uk/documents/hate-crime-action-plan

Mae'r CPS hefyd yn ymwneud â rhaglen 'Race for Justice' y Twrnai Cyffredinol sy'n dwyn ynghyd y llywodraeth, asiantaethau CJS, academyddion a phobl o sefydliadau sy'n ymwneud yn uniongyrchol â chefnogi dioddefwyr trosedd casineb er mwyn gwella ymateb y system cyfiawnder troseddol. Mae'r rhaglen wedi cyflwyno diffiniad cyffredin ar gyfer trosedd casineb sy'n cael ei rannu gan yr holl asiantaethau gan gynnwys yr heddlu a'r CPS, ac wedi cynnal archwiliad o wasanaethau a gyflwynir gan asiantaethau cyfiawnder troseddol mewn nifer o ardaloedd ar draws y wlad, gan arwain at lunio set o ddulliau i gefnogi Byrddau Cyfiawnder Troseddol Lleol wrth iddynt archwilio eu perfformiad eu hunain yn lleol.

Wrth i ni ganolbwyntio ar wella perfformiad, monitro ac adrodd ym maes trosedd casineb, rydym yn sicrhau bod y CPS yn chwarae ei ran i gyflawni Cytundeb Gwasanaeth Cyhoeddus 23 – gwneud cymunedau yn fwy diogel. Mae'r CPS hefyd yn gweithio gyda phartneriaid yn y llywodraeth i gyflawni PSA 24 – i gyflwyno System Cyfiawnder Troseddol (CJS) sy'n fwy effeithiol, clir ac ymatebol i ddioddefwyr a'r cyhoedd. Mae'r gwaith hwn yn ceisio hybu hyder cyffredinol y cyhoedd yn nhegwch ac effeithiolrwydd y CJS trwy sefydlu gwelliannau yn y ffordd y bydd y CJS yn ymdrin â throsedd trwy wasanaethau mwy effeithlon ac effeithiol, a gwell gwasanaethau i ddioddefwyr a thystion a grwpiau Pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig (BME).

## Gwaith y CPS

*Ymgysylltu â'r gymuned wrth erlyn trosedd casineb*

Mae'r CPS yn parhau i ddatblygu'r dull o ddefnyddio paneli craffu ar drosedd casineb wrth geisio gwella'n barhaus trwy ymgysylltu dwys â'r gymuned. Mae'r Paneli Craffu ar Drosedd Casineb yn cynnwys y CPS, rhanddeiliaid cymunedol, hwylusydd annibynnol a chyngorydd cyfreithiol. Daw'r aelodau cymunedol o grwpiau lleol sydd â phrofiad uniongyrchol o drosedd casineb.Byddant yn ystyried beth weithiodd yn dda, beth oedd ddim cystal, ac a oes unrhyw wersi i'w dysgu i'r dyfodol.

Yn ystod Chwefror a Mawrth 2009 comisiynwyd arolwg annibynnol gan y CPS i ystyried sut roedd y paneli'n mynd ar ôl blwyddyn gyfan o gyfarfodydd, ar y cyfan, i'r rhan fwyaf o baneli. Ymysg yr ymatebwyr i'r arolwg yr oedd cynrychiolwyr cymunedau, ac asiantaethau partner a oedd yn bresennol ar baneli, cyfreithydd annibynnol y panel a staff allweddol y CPS a oedd yn ymwneud â'r paneli. Pwrpas yr arolwg oedd canfod sut brofiad a gâi'r cyfranogwyr ar y paneli a pha welliannau y gellid eu gwneud er mwyn datblygu pa mor effeithlon oeddynt. Cafwyd ymateb i'r arolwg gan gant un deg saith aelod o'r gymuned. Ymhlith y casgliadau allweddol, dywedodd:

- 93% bod eu cyfraniad yn cael ei werthfawrogi gan aelodau eraill y panel
- 98% bod y CPS yn gwrando ar eu barn a'u safbwyntiau
- 75% bod eu hyder yn y CPS wedi cynyddu ers ymuno â'r panel
- 94% bod digonedd o gyfle iddynt gyfrannu eu safbwyntiau i'r panel
- 73% eu bod yn fodlon bod argymellion a wnaed gan y panel, lle'r oeddynt yn berthnasol i'r CPS, yn cael eu gweithredu gan y CPS
- 80% eu bod yn hyderus bod yr argymhellion a wnaed gan y panel, lle'r oeddynt yn berthnasol i'r CPS, yn cael eu gweithredu gan y CPS yn y dyfodol agos
- 93% eu bod yn fodlon gyda'r ffordd yr oedd y panel yn cael ei gynnal.

Mae'r CPS yn falch o'r canlyniadau hyn ac rydym wedi ymrwymo i barhau i adeiladu ar y llwyddiannau hyn yn ein gwaith yn y dyfodol gyda phaneli craffu ar drosedd casineb ac ar draws mentrau a rhaglenni eraill y CPS[3].

Mae paneli Ymgysylltu â'r Gymuned y CPS nawr yn cael eu cynnal ar draws y wlad. Mae'r rhain ar sail fwy rhanbarthol a chyda ffocws mwy cyffredinol ar fusnes y CPS, ei berfformiad a strategaethau. Mae i'r paneli hyn swyddogaeth bwysig o ran monitro a gwella perfformiad y CPS, a byddant yn craffu ar wybodaeth am berfformiad yn lleol er mwyn gwneud argymhellion ar gyfer gwelliannau.

[3] Am ragor o wybodaeth gweler Community Engagement with Impact yn www.cps.gov.uk

*Ymchwiliad Stephen Lawrence 10 mlynedd yn ddiweddarach – pwyso a mesur*
Eleni, mae deng mlynedd ers ymchwiliad Stephen Lawrence, neu Adroddiad Macpherson. Roedd hwn yn adroddiad dylanwadol iawn ar draws y system cyfiawnder troseddol a fframiodd nid yn unig y ddeddfwriaeth sy'n cydnabod trosedd casineb hiliol ond hefyd y ddeddfwriaeth ym maes trosedd casineb tuag at bobl anabl, homoffobig, a chrefyddol a fyddai'n dilyn. Lluniwyd y newidiadau sylfaenol a sefydlwyd gan y llywodraeth hon er mwyn cefnogi dioddefwyr a thystion i chwarae eu rhan yn ein gwasanaeth cyfiawnder troseddol.

Yn sgil nodi'r deng mlynedd arbennig hon, manteisiodd y CPS ar y cyfle i bwyso a mesur ein cynnydd o ran gweithredu argymhellion yr adroddiad. Rydym wedi gwneud llawer o gynnydd dros y blynyddoedd. Mae ein datganiadau polisi trosedd casineb, dangosyddion perfformiad, adroddiadau cyhoeddus a'n paneli craffu ar drosedd casineb wedi gosod y safon ar gyfer gwelliant parhaus yn ein perfformiad. Fodd bynnag mae'r canlyniadau a gyflwynir yn ddiweddarach yn yr adroddiad hwn yn dangos hefyd fod yna beth ffordd i fynd o hyd cyn y byddwn wedi cyrraedd ein holl dargedau perfformiad ym maes trosedd casineb a chyn y byddwn wedi mynd i'r afael â'r rhesymau sy'n aros ac sy'n achosi canlyniadau aflwyddiannus.

*Gwelliant parhaus trwy reoli perfformiad*
Yn 2008 - 09 symudwyd trais yn y cartref o blith Troseddau Casineb i gael ei reoli dan y Strategaeth Trais yn erbyn Menywod (VAW), gyda Dangosydd VAW penodol[4].

Fel hyn gellid canolbwyntio'n fwy manwl ar berfformiad trosedd casineb, a gyflwynir yn yr adroddiad hwn. Un targed ar gyfer canlyniadau aflwyddiannus sydd gan y Dangosydd Trosedd Casineb sef 18% a gymhwysir i'r holl linynnau trosedd casineb cyfredol. Asesir perfformiad Rhanbarth yn erbyn y llinynnau trosedd casineb bob 6 mis. Os rhoddir adroddiad graddio 'coch' i unrhyw Ranbarth, rhaid iddynt adrodd yn ôl i'r pencadlys gyda'u cynlluniau ar gyfer gwella. Mae proses adolygu perfformiad y Rhanbarth yn cynnwys cyfarfodydd rheolaidd hefyd rhwng yr uwch reolwyr ar lefel Ranbarthol a'r pencadlys er mwyn adolygu perfformiad.

Cynhaliodd y CPS adolygiadau thematig o bolisïau trosedd casineb a lansiwyd yn ddiweddar er mwyn sicrhau y bydd arfer da yn cael ei sefydlu ledled y wlad. Er enghraifft, bydd arolwg thematig trosedd casineb tuag at bobl anabl yn dod i ben yn ddiweddarach yn 2010, pryd y bydd Rhanbarthau yn cael eu hasesu i weld faint o gynnydd a wnaed o ran gweithredu polisi ac arweiniad ar drosedd casineb tuag at bobl anabl.

*Themâu perfformiad allweddol*
Ein perfformiad ym maes trosedd casineb hiliol a chrefyddol a gynhwysai'r nifer fwyaf o droseddau, sef 11,624, a dyma ble dangoswyd y gwelliant mwyaf gyda'r gyfradd canlyniadau llwyddiannus yn codi o 79.9% - 82.4% a'r gyfradd pledion euog yn codi o 66.5% i 69.8% rhwng 2007 - 08 a 2008 - 09. Roedd ein perfformiad wrth erlyn achosion homoffobig a thrawsffobig yn galonogol iawn hefyd. Cafodd 1,013 o achosion eu herlyn gan y CPS eleni, a chynyddodd cyfran y canlyniadau llwyddiannus hefyd o 78.2% i 80.5%. Er i'n perfformiad ar drosedd casineb tuag at bobl anabl leihau ychydig o 77% i 76.1% o ganlyniadau llwyddiannus, fe wnaeth nifer yr achosion a ddaeth atom oddi wrth yr heddlu gynyddu o 279 - 444 achos a chynyddodd y niferoedd a gafodd eu herlyn gan y CPS o 183 - 393. Mae'r cynnydd hwn yn y niferoedd heb fawr o effaith ar ein cyfradd ganlyniadau llwyddiannus yn galonogol iawn. Serch hynny nid ydym yn hunanfodlon o ran y gwelliannau sy'n angenrheidiol wrth erlyn trosedd casineb tuag at bobl anabl.

---

[4] Am ragor o wybodaeth am berfformiad y CPS yn erlyn Trais yn Erbyn Menywod gweler yr 2il Adroddiad Blynyddol ar Drais yn Erbyn Menywod a gyhoeddir ar y cyd â'r adroddiad hwn.

# Canfyddiadau Allweddol Trosedd Casineb

Since April 2005 the Crown Prosecution Service has reported on its performance in relation to the prosecution of hate crime as part of the performance review process. In accordance with a policy decision, domestic violence performance is now reported in the Violence against Women Annual Report. Figures for earlier periods have been revised in the present report to reflect this and exclude domestic violence. Performance data on hate crimes are recorded within the Compass Case Management System, and extracted from the related Compass Management Information System.


Completed prosecutions fall into two categories: convictions, consisting of guilty pleas, convictions after trial and cases proved in the absence of the defendant; and unsuccessful outcomes, comprising all other outcomes including discontinuances, administrative finalisations, discharged committals, dismissals after trial and dismissals no case to answer, judge directed acquittals and jury acquittals.

## Cyhuddo

Cyflwynwyd cyhuddo diffynyddion yn statudol gan y CPS yn llawn yn Ebrill 2006. Yn y tair blynedd yn dilyn y dyddiad hwnnw cafodd 42,000 o achosion y nodwyd eu bod yn ymwneud â throseddau casineb eu cyfeirio at y CPS am benderfyniad cyhuddo. Mae'r tabl a'r siart isod (1) yn dangos bod dros 28,000 o'r rhain, neu 67%, wedi'u cyhuddo yn ystod y cyfnod o dair blynedd.

Cododd cyfran yr achosion a gyhuddwyd o 59.4% o achosion casineb a gyfeiriwyd at y CPS yn 2006-07 i 72.3% yn 2008-09. Adroddir am gyfran yr achosion a gyhuddwyd o fewn pob llinyn casineb yn adran berthnasol yr adroddiad hwn. Roedd cyfraddau cyhuddo yn amrywio ar draws y llinynnau. Yn 2008-09, cyhuddwyd 73.2% o droseddau gwaethygol hiliol a chrefyddol o gymharu â 65.1% o droseddau homoffobig a 65.8% o drosedd casineb tuag at bobl anabl.

### **Tabl 1 - Penderfyniadau Cyn Cyhuddo***



| Pob Diffynnydd | 2006-07 | | 2007-08 | | 2008-09 | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Nifer | % | Nifer | % | Nifer | % |
| Cyhuddwyd | 8,390 | 59.4% | 10,060 | 69.4% | 9,675 | 72.3% |
| Cais am ragor o dystiolaeth | 297 | 2.1% | 150 | 1.0% | 95 | 0.7% |
| Dim erlyniad | 2,919 | 20.7% | 2,773 | 19.1% | 2,167 | 16.2% |
| Pob penderfyniad arall | 2,527 | 17.9% | 1,511 | 10.4% | 1,442 | 10.8% |
| **Cyfanswm** | **14,133** | | **14,494** | | **13,379** | |


*Rhoddwyd Cyhuddo Statudol ar waith yn llawn ar 3 Ebrill 2006

**Mae ffigurau a gynhwysir yn adroddiad 2007-08 yn hepgor yr achosion hynny ble na chafodd canlyniad y penderfyniad ei gasglu'n gyflawn yng nghofnodion y CPS. Er mwyn bod yn gyflawn, mae'r canlyniadau hynny wedi cael eu hychwanegu yn yr adroddiad presennol. Felly mae'r ffigurau uchod yn wahanol i'r rhai yn adroddiad y llynedd*

## Euogfarnau

Yn y tair blynedd yn diweddu Mawrth 2009, erlynwyd dros 49,200 diffynnydd am droseddau casineb. Mae tabl a siart 2 isod yn dadansoddi erlyniadau dros y cyfnod o bedair blynedd, gan ddangos bod euogfarnau wedi codi o 74% yn 2005-06 i 82% yn 2008-09.

### Tabl 2 - Erlyniadau a Gwblhawyd yn ôl Canlyniad





| | 2005-06 | | 2006-07 | | 2007-08 | | 2008-09 | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Nifer | % | Nifer | % | Nifer | % | Nifer | % |
| Euogfarnau | 7,003 | 74.0% | 9,621 | 76.8% | 11,317 | 79.8% | 10,690 | 82.0% |
| Aflwyddiannus | 2,465 | 26.0% | 2,914 | 23.2% | 2,869 | 20.2% | 2,340 | 18.0% |
| **Cyfanswm** | **9,468** | | **12,535** | | **14,186** | | **13,030** | |

Mae'r tabl a'r siartiau isod yn dadansoddi canlyniadau erlyniadau yn fanwl ar gyfer troseddau casineb yn 2006-07, 2007-08 a 2008-09. Cododd pledion euog o 64% i 69.3%, gan gyfrannu at well cyfradd euogfarnu o 82% at ei gilydd yn 2008-09. Bu gostyngiad yn yr erlyniadau a ollyngwyd gan y CPS, gan gynnwys barnwr yn cyfeirio i ryddfarnu, terfynu achosion, ac achosion ble na chynigiwyd tystiolaeth, o 14.6% i 11%.


Yn 2008-09 y targed oedd gostwng canlyniadau aflwyddiannus ar gyfer trosedd casineb i 18% erbyn pedwerydd chwarter y flwyddyn. Aethpwyd y tu hwnt i'r targed hwn gan gyrraedd 17.5% yn y pedwerydd chwarter. Y perfformiad yn y chwarter olaf ar gyfer llinynnau unigol trosedd casineb oedd 16.9% ar gyfer troseddau gwaethygol hiliol a chrefyddol, 20.8% ar gyfer trosedd homoffobig a thrawsffobig a 25.7% ar gyfer trosedd casineb tuag at bobl anabl.

### Tabl 3 - Canlyniadau Erlyn

#### Euogfarnau




#### Canlyniadau Aflwyddiannus





| | 2006-07 | | 2007-08 | | 2008-09 | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Nifer | % | Nifer | % | Nifer | % |
| Cwblhau Gwaith Gweinyddol | 160 | 1.3% | 194 | 1.4% | 159 | 1.2% |
| Traddodi a ryddhawyd | 83 | 0.7% | 54 | 0.4% | 29 | 0.2% |
| Erlyniadau a Ollyngwyd gan gynnwys dirwyn achosion i ben, ni chynigiwyd tystiolaeth a thynnu'n ôl | *1,836* | *14.6%* | *1,795* | *12.7%* | *1,432* | *11.0%* |
| *o'u plith – ni chynigiwyd tystiolaeth* | *951* | *7.6%* | *1,025* | *7.2%* | *776* | *6.0%* |
| Gwrthodwyd yn dilyn treial llawn | 519 | 4.1% | 543 | 3.8% | 474 | 3.6% |
| Dim achos i'w ateb | 90 | 0.7% | 73 | 0.5% | 51 | 0.4% |
| Barnwr yn cyfeirio i ryddfarnu | 40 | 0.3% | 42 | 0.3% | 22 | 0.2% |
| Rhyddfarnu gan reithgor | 186 | 1.5% | 168 | 1.2% | 173 | 1.3% |
| **Canlyniadau Aflwyddiannus** | **2,914** | **23.2%** | **2,869** | **20.2%** | **2,340** | **18.0%** |
| Ple euog | 8,024 | 64.0% | 9,441 | 66.6% | 9,035 | 69.3% |
| Euogfarnu yn dilyn treial | 1,539 | 12.3% | 1,832 | 12.9% | 1,610 | 12.4% |
| Profwyd yn absenoldeb | 58 | 0.5% | 44 | 0.3% | 45 | 0.3% |
| **Euogfarnau** | **9,621** | **76.8%** | **11,317** | **79.8%** | **10,690** | **82.0%** |
| **Cyfanswm Erlyniadau** | **12,535** | | **14,186** | | **13,030** | |

## Erlyniadau yn ôl math o drosedd casineb

Mae'r tablau a'r siartiau isod (4) yn dangos erlyniadau yn ôl math o drosedd casineb o 2005-06 i 2008-09. Troseddau gwaethygol hiliol a chrefyddol oedd cyfran fwyaf y cyfanswm ar 94% yn 2005-06 a 89% yn 2008-09. Dechreuwyd casglu data ar gyfer troseddau casineb tuag at bobl anabl yn Ebrill 2007.

### Tabl 4 – Erlyniadau a Gwblhawyd yn ôl Math o Drosedd Casineb




| | 2005-06 | | 2006-07 | | 2007-08 | | 2008-09 | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Nifer | % | Nifer | % | Nifer | % | Nifer | % |
| Hil a Chrefyddol | 8,868 | 93.7% | 11,713 | 93.4% | 13,008 | 91.7% | 11,624 | 89.2% |
| Homoffobig | 600 | 6.3% | 822 | 6.6% | 995 | 7.0% | 1,013 | 7.8% |
| Trosedd Casineb tuag at Bobl Anabl | 0 | 0.0% | 0 | 0.0% | 183 | 1.3% | 393 | 3.0% |
| **Cyfanswm** | **9,468** | | **12,535** | | **14,186** | | **13,030** | |

## Erlyniadau aflwyddiannus

Gall achosion fethu oherwydd rhesymau tystiolaethol, (e.e. gwrthdrawiad tystiolaeth), am resymau budd y cyhoedd, (e.e. y golled neu'r niwed wedi'i hunioni, neu lle gallai gael effaith andwyol ar iechyd corfforol neu feddyliol y dioddefwr), oherwydd bod achos yn methu parhau, (e.e. y dioddefwr yn gwrthod rhoi tystiolaeth neu'n tynnu tystiolaeth yn ôl), oherwydd bod achosion yn ddarostyngedig i gwblhau gwaith gweinyddol, (e.e. gwarant y fainc ar gyfer arestio diffynnydd yn parhau heb ei gweithredu, neu'r diffynnydd wedi marw), a rhesymau eraill. Yn 2008-09, roedd 6.8% o ganlyniadau aflwyddiannus am resymau gweinyddol; 10.3% oherwydd budd y cyhoedd; a 29.3% am resymau eraill, yn debyg i'r flwyddyn flaenorol. Roedd 36.1% yn aflwyddiannus am resymau tystiolaethol, fymryn yn uwch na'r 34.3% a gofnodwyd yn 2007-08, ac roedd 17.5% yn methu parhau, o gymharu ag 20.5% yn 2007-08.

Mae tabl 5 yn rhoi dadansoddiad manylach, gan ddangos y gyfran sy'n methu oherwydd materion gyda dioddefwyr (gan gynnwys dioddefwyr yn tynnu cyhuddiadau yn ôl ac achosion ble bydd dioddefwr yn methu mynychu gwrandawiad llys), y rhai ble'r oedd gwrthdrawiad tystiolaeth; lle'r oedd elfen gyfreithiol hanfodol ar goll; lle'r oedd y diffynnydd yn destun ditiadau neu ddedfrydau mewn perthynas ag achosion eraill, a rhyddfarnu yn dilyn treial. O fewn y rhesymau allweddol hyn, rhyddfarnu yn dilyn treial oedd yn parhau i fod y categori unigol mwyaf, gan godi o 17.5% yn 2005-06 i 23.9% yn 2008-09, tra bu cynnydd tebyg yn y gyfran a fethodd oherwydd materion gyda dioddefwyr, o 14.9% i 21.5%. O fewn y cyfanswm hwn, y gyfran sy'n methu oherwydd na wnaeth y diffynnydd fynychu, a thystiolaeth y dioddefwyr ddim yn cefnogi achos yr erlyniad, oedd y cyfrannau a gododd fwyaf. Fodd bynnag, bu cwymp yn yr achosion a fethodd oherwydd elfen gyfreithiol hanfodol ar goll o 17% i 10.4%.  Cododd y gyfran a fethodd oherwydd rhesymau allweddol dros 6 y cant o 57.5% i 66.4%.

### Tabl 5 – Rhesymau Allweddol dros Erlyniadau Aflwyddiannus




| | 2005-06 | | 2006-07 | | 2007-08 | | 2008-09 | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Nifer | % | Nifer | % | Nifer | % | Nifer | % |
| Dioddefwr yn Tynnu Cyhuddiad yn ôl | 117 | 4.7% | 175 | 6.0% | 180 | 6.3% | 110 | 4.7% |
| Dioddefwr Ddim yn Mynychu | 141 | 5.7% | 218 | 7.5% | 261 | 9.1% | 212 | 9.1% |
| Tystiolaeth Dioddefwr ddim yn cefnogi achos | 110 | 4.5% | 177 | 6.1% | 191 | 6.7% | 182 | 7.8% |
| **Cyfanswm Materion gyda Dioddefwyr** | **368** | **14.9%** | **570** | **19.6%** | **632** | **22.0%** | **504** | **21.5%** |
| Gwrthdrawiad Tystiolaeth | 134 | 5.4% | 192 | 6.6% | 172 | 6.0% | 160 | 6.8% |
| Elfen Gyfreithiol Hanfodol ar Goll | 419 | 17.0% | 382 | 13.1% | 328 | 11.4% | 243 | 10.4% |
| Ditiad/Dedfryd Arall | 64 | 2.6% | 95 | 3.3% | 115 | 4.0% | 87 | 3.7% |
| Rhyddfarnu yn dilyn treial | 432 | 17.5% | 583 | 20.0% | 617 | 21.5% | 560 | 23.9% |
| *Cyfanswm Rhesymau Allweddol* | *1,417* | *57.5%* | *1,822* | *62.5%* | *1,864* | *65.0%* | *1,554* | *66.4%* |
| Pob Rheswm Arall | 871 | 35.3% | 932 | 32.0% | 811 | 28.3% | 627 | 26.8% |
| Cwblhau Gwaith Gweinyddol | 177 | 7.2% | 160 | 5.5% | 194 | 6.8% | 159 | 6.8% |
| **Cyfanswm** | **2,465** | | **2,914** | | **2,869** | | **2,340** | |

Rhoddir dadansoddiad o'r rhesymau ar gyfer yr holl linynnau unigol o fewn trosedd casineb yn yr adran berthnasol yn yr adroddiad hwn. Roedd gwahaniaethau mewn rhesymau allweddol ar draws y llinynnau. Tra chododd niferoedd yr achosion a fethodd oherwydd materion dioddefwyr mewn troseddau gwaethygol hiliol a chrefyddol a throseddau homoffobig, mewn trosedd casineb tuag at bobl anabl bu lleihad o 5 pwynt canran yn y canlyniadau aflwyddiannus am y rhesymau hyn. Rhyddfarnau ar ôl treialon a diffyg elfen gyfreithiol hanfodol oedd y rhesymau mwyaf eraill am fethiant ar draws yr holl linynnau.


Mae tabl a siart 6 yn dangos niferoedd a chyfran y materion sy'n ymwneud â dioddefwyr mewn perthynas â phob canlyniad. Er bod niferoedd y rhai aflwyddiannus oherwydd anawsterau dioddefwyr wedi cynyddu, o 368 yn 2005-06 i 504 yn 2008-09, fe arhosodd y cyfrannau yr un fath. Cwympodd y canlyniadau aflwyddiannus o 26% yn 2005-06 i 18% yn 2008-09.

## Tabl 6 – Cymharu Rhesymau Allweddol dros Ganlyniadau Aflwyddiannus

### Rhesymau Allweddol mewn perthynas â phob Canlyniad




### % Materion sy'n Ymwneud â Dioddefwyr




| | 2005-06 | | 2006-07 | | 2007-08 | | 2008-09 | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Nifer | % | Nifer | % | Nifer | % | Nifer | % |
| *Cyfanswm Aflwyddiannus oherwydd materion dioddefwyr* | *368* | *3.9%* | *570* | *4.5%* | *632* | *4.5%* | *504* | *3.9%* |
| Cyfanswm Aflwyddiannus | 2,465 | 26.0% | 2,914 | 23.2% | 2,869 | 20.2% | 2,340 | 18.0% |
| Cyfanswm Euogfarnau | 7,003 | 74.0% | 9,621 | 76.8% | 11,317 | 79.8% | 10,690 | 82.0% |
| **Cyfanswm Erlyniadau** | **9,468** | | **12,535** | | **14,186** | | **13,030** | |

## Categori'r prif drosedd

Ar ddiwedd achosion, rhoddir Categori'r Prif Drosedd ar gyfer achos pob diffynnydd er mwyn dangos y math o gyhuddiadau a ddwynwyd a'u difrifoldeb.

Troseddau corfforol a throseddau trefn gyhoeddus oedd y categorïau mwyaf niferus, gan gynrychioli 83% o erlyniadau trosedd casineb yn 2008-09 (43% a 40% yn y drefn honno). Roedd difrod troseddol yn gyfrifol am 5% pellach. Cofnodwyd patrwm tebyg ar gyfer dynion, gyda 42% yn cael eu categoreiddio yn droseddau corfforol, 40% yn rhai trefn gyhoeddus a 6% yn ddifrod troseddol. Yr oedd patrwm ychydig yn wahanol ar gyfer menywod, gyda throseddau corfforol yn uwch ar 46% a threfn gyhoeddus a difrod troseddol yn is ar 39% a 4%. Cafodd 4% arall o erlyniadau yn erbyn menywod eu cofnodi yn y categori dwyn a thradod nwyddau wedi'u dwyn. Dynion oedd 84% o'r diffynyddion y nodwyd mai troseddau corfforol a threfn gyhoeddus oedd eu prif drosedd, sef cyfran debyg i'r flwyddyn flaenorol.

Troseddau corfforol oedd y categori mwyaf yn holl linynnau troseddau casineb (42% ar gyfer achosion gwaethygol hiliol a chrefyddol, 48% ar gyfer homoffobig a 45% ar gyfer troseddau casineb tuag at bobl anabl) gyda threfn gyhoeddus yr ail fwyaf ar gyfer achosion gwaethygol hiliol a chrefyddol a homoffobig (42% a 36%). Troseddau dwyn a thrafod nwyddau wedi'u dwyn oedd y categori ail fwyaf mewn trosedd casineb tuag at bobl anabl (12%) gyda threfn gyhoeddus yn gyfrifol am 11% pellach .


## Cydraddoldeb

### *(i) Diffynyddion*

**Rhyw**

Mae tabl 7 yn dadansoddi rhyw diffynyddion a dioddefwyr yn y drefn honno. Mae cyfran y dynion a erlynwyd wedi parhau fwy neu lai yr un fath ar 86% yn 2005-06 ac 85% yn 2008-09. Yn y cyfnod olaf, dynion oedd 85% o'r diffynyddion mewn troseddau gwaethygol hiliol a chrefyddol, 86% mewn troseddau homoffobig a 79% mewn troseddau anabledd.

**Tabl 7 – Erlyniadau a Gwblhawyd yn ôl Rhyw y Diffynnydd**



| | 2005-06 | | 2006-07 | | 2007-08 | | 2008-09 | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Nifer | % | Nifer | % | Nifer | % | Nifer | % |
| Menywod | 1,324 | 14.0% | 1,887 | 15.1% | 2,137 | 15.1% | 2,020 | 15.5% |
| Dynion | 8,143 | 86.0% | 10,645 | 84.9% | 12,047 | 84.9% | 11,007 | 84.5% |
| Ni wyddys | 1 | 0.0% | 3 | 0.0% | 2 | 0.0% | 3 | 0.0% |
| **Cyfanswm** | **9,468** | | **12,535** | | **14,186** | | **13,030** | |

### Ethnigrwydd

Bydd y CPS yn casglu data am ethnigrwydd diffynyddion yn unol â diffiniadau cytûn y System Cyfiawnder Troseddol ar gyfer yr 16+1 categori ethnig. Parhaodd y cyfraneddau o fewn pob categori yn debyg i'r flwyddyn flaenorol. Yn 2008-09, nodwyd bod 75% o ddiffynyddion trosedd casineb yn perthyn i'r categori Gwyn Prydeinig, a chafodd 79% eu categoreiddio yn ddiffynyddion Gwyn. Nodwyd bod 5% o ddiffynyddion yn Asiaidd, a nodwyd bod 5% pellach yn Ddu. Nid oedd 4% o ddiffynyddion wedi datgan eu hethnigrwydd wrth gael eu harestio.


Casglwyd data am grefydd neu gred ac anabledd diffynyddion ers Ebrill 2007 ac mae cyflawnrwydd a chywirdeb y data yn parhau i gael eu datblygu.

## *(ii) Dioddefwyr*

### Rhyw

Mae tabl 8 yn dadansoddi rhyw dioddefwyr. Fe ddaw data am dddioddefwyr o'r System Reoli Tystion, ac mae ar gael o Ebrill 2006 yn unig. Mae cyflawnrwydd a chywirdeb y wybodaeth hon yn parhau i gael eu datblygu. O blith y dioddefwyr hynny y nodwyd eu rhyw, y gyfran uchaf yw dynion, ar 71% yn 2006-07 a 67% yn 2008-09. Ble nodwyd rhyw, roedd 68% o ddioddefwyr troseddau gwaethygol hiliol a chrefyddol yn ddynion, roedd 65% yn ddynion mewn troseddau homoffobig, a 45% yn ddynion mewn troseddau casineb tuag at bobl anabl.

### Table 8 – Rhyw Dioddefwyr*



| | 2006-07 | | 2007-08 | | 2008-09 | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Nifer | % | Nifer | % | Nifer | % |
| Menywod | 424 | 10.2% | 1,188 | 14.2% | 1,878 | 21.1% |
| Dynion | 1,033 | 24.9% | 2,502 | 30.0% | 3,796 | 42.6% |
| Ni wyddys | 2,685 | 64.8% | 4,653 | 55.8% | 3,233 | 36.3% |
| **Cyfanswm** | **4,142** | | **8,343** | | **8,907** | |

* Cafodd data o 2006-07 ei adrodd ar gyfer pob dioddefwyr boed sifiliaid ai peidio, ac mae data o 2007-08 ymlaen yn adrodd am ddioddefwyr sy'n sifiliaid yn unig.

### Data cydraddoldeb arall

Fe ddaw data am ddioddefwyr o'r System Reoli Tystion. Y mae data am ethnigrwydd ar gael o Ebrill 2006, a data am grefydd neu gred ac anabledd o Ebrill 2007. Mae cyflawnrwydd a chywirdeb y wybodaeth hon yn parhau i gael eu datblygu ac ni chynhwysywyd ffigurau yn yr adroddiad presennol. Y mae gwaith ar y gweill ar gyfer 2009-2010 i wella casglu data ac ansawdd y data.

## Gwasanaethau Trosedd Casineb

Cafodd y wybodaeth hon ei chasglu ers Ebrill 2007, ac mae'n parhau i gael ei datblygu hefyd. O blith y dioddefwyr a thystion hynny a gyfeiriwyd at wasanaethau cefnogaeth neu asiantaeth arbenigol, cofnodwyd bod ychydig dan 1% wedi'u cyfeirio at 'asiantaeth arbenigol ar drosedd casineb'. Fodd bynnag, Fodd bynnag, cyfeiriwyd 77% at un ai asiantaeth cefnogi dioddefwyr neu dystion, o gymharu ag 19% yn 2007-08, tra bo 22% yn destun 'cyfeirio arall' o gymharu ag 81%.

## Tynnu'n ôl

Bu'r gallu i gasglu gwybodaeth am fater tynnu'n ôl, yn ei lle ers Ebrill 2007, ond dal i gael ei ddatblygu y mae pa mor gyflawn a dibynadwy yw'r data. Bydd gwaith yn cael ei gynllunio yn 2009-2010 i wella casglu'r data a'i ansawdd.

## Cynyddu dedfrydau

Bu'r wybodaeth hon yn cael ei chasglu ers Ebrill 2007, ond eto mae'n parhau i gael ei datblygu. Bydd gwaith yn cael ei gynllunio yn 2009-2010 i wella casglu'r data a'i ansawdd.

# Trosedd Casineb Hiliol a Chrefyddol

Mae Gwasanaeth Erlyn y Goron wedi adrodd ar erlyn troseddau gwaethygol hiliol a chrefyddol fel rhan o broses adolygu perfformiad Rhanbarthau'r CPS ers mis Ebrill 2005. Mae'r CPS yn cydnabod y gall trosedd casineb hiliol a chrefyddol fod yn dreiddiol ac y gall ddigwydd mewn stadiymau pêl droed, siopau bwydydd parod a chymdogaethau lleol, gan ymosod ar sylfeini cydlynedd cymdeithasol. Rydym yn benderfynol o chwarae ein rhan yn dod â'r troseddau hyn gerbron llys a chefnogi dioddefwyr a thystion. Mae'r casgliadau yn yr adran hon yn dangos bod mwy o ddiffynyddion yn cael eu cyhuddo, a bod perfformiad y CPS yn erlyn troseddau hiliol a chrefyddol wedi parhau i wella dros y pedair blynedd a aeth heibio. Mae cyfradd y pledion euog a chyfradd gollwng achosion gan y CPS wedi gwella, sy'n arbennig o galonogol gan fod hyn yn awgrymu bod yr achosion yn cael eu paratoi'n well a bod dioddefwyr a thystion wedi gallu osgoi'r hyn a all fod yn brofiad anodd yn y llys. Yn ychwanegol, aethpwyd y tu hwnt i'r targed perfformiad o 82% o ganlyniadau llwyddiannus gan gyrraedd 83.1% yn chwater olaf y flwyddyn. Yn galonogol, mae'r ceisiadau a wneir gan y CPS i'r heddlu am dystiolaeth bellach cyn cyhuddo wedi lleihau hefyd, gan awgrymu bod yr heddlu yn ymchwilio yn fwy trwyadl a bod gwell ymagwedd erlyn fel tîm.

Fodd bynnag, mae yna achosion sy'n dal i fethu am resymau arwyddocaol y mae'n rhaid rhoi sylw iddynt. 'Materion dioddefwyr' a 'rhyddfarnu ar ôl treial' yw'r ddau reswm mwyaf cyffredin dros ganlyniadau aflwyddiannus. Mae hyn yn awgrymu bod yna fwy i'w wneud er mwyn sicrhau y nodir anghenion cefnogaeth y dioddefwyr ac y'u bodlonir mor fuan â phosib, ac y rhoddir blaenoriaeth gan yr heddlu a'r CPS i gasglu tystiolaeth a pharatoi achosion yn effeithiol.

Troseddau corfforol a throseddau trefn gyhoeddus oedd y categorïau mwyaf niferus, gan adlewyrchu natur ddifrifol a chyhoeddus y troseddau hyn, yn eu trefn. Mae'r ddwy agwedd yn gallu cael effaith fawr ar ddioddefwyr a thystion troseddau casineb hiliol a chrefyddol.

Fel yr adroddwyd yn yr adroddiad blynyddol cyntaf ar drosedd casineb, cafodd adroddiad ymchwil y CPS i drosedd gwrth-semitig ei lansio ym mis Mai 2008. Pwrpas yr adroddiad oedd ymateb i'r Grŵp Seneddol Hollbleidiol yn erbyn Gwrth-Semitiaeth a gyhoeddwyd yn mis Medi 2006. Yn dilyn ymchwiliad yr CPS i adroddiadau am ddigwyddiadau gwrth-semitig a chanlyniadau eu herlyniadau wedi hynny, cynhyrchwyd cynllun gweithredu ar drosedd gwrth-semitig. Ers hynny, bu camau megis sicrhau bod gan erlynwyr gyfarwyddyd ynghylch cyfeirio achosion at yr Adain Gwrthderfysgaeth a datblygu hyfforddiant ar drosedd casineb ar gyfer erlynwyr, a ddylai fod wedi'i gwblhau erbyn diwedd Mawrth 2010.

**Trosedd hiliol a chrefyddol: Astudiaeth Achos o CPS Essex**

Ers i fosg agor tua blwyddyn yn ôl, bu nifer o ddigwyddiadau hiliol a chrefyddol yn cael eu cyfeirio tuag ato, o ddifrod troseddol hyd at ymosodiadau yn erbyn Imam y mosg a'i deulu, gan gynnwys rhywun yn gosod bacwn ar y drysau. Credid bod cysylltiad rhwng yr ymosodiadau hyn â thafarn gyfagos sydd â chysylltiadau gyda hwliganiaid pêl droed lleol.

Cafodd y Tîm Plismona yn y Gymdogaeth ei alw allan nifer o weithiau, ond oherwydd nad oedd neb penodol dan amheuaeth o gyflawni'r troseddau nid oedd digon o dystiolaeth i gyfeirio'r achos at CPS Essex am benderfyniad. O ganlyniad, roedd hyder yn y system cyfiawnder troseddol ymysg y bobl a ddefnyddiai'r mosg yn isel.

Un noson, clywodd pobl yn y Mosg sŵn gweiddi ac o fewn eiliadau torrwyd un o ffenestri'r neuadd weddi. Aethant allan a gwelsant ddau ddyn yn cicio'r drws a gweiddi; un ohonynt oedd y diffynnydd. Pan gawsant eu herio, rhedodd y ddau ddyn i ffwrdd, gyda rhai o aelodau'r mosg yn rhedeg ar eu holau. Dechreuodd un o'r ddau ddyn weiddi sylwadau hiliol. Cyrhaeddodd yr heddlu ac arestio'r diffynnydd am ddifrod troseddol a chyfeiriwyd yr achos at y CPS.

Yn unol â Chyfarwyddyd y CPS ar Erlyn Achosion o Drosedd Hiliol a Chrefyddol, rhoddwyd ystyriaeth i'r materion canlynol yn fuan: digwyddiadau blaenorol yn erbyn y dioddefwr hwn, yr effaith ar y gymuned ehangach, y tebygolrwydd y byddai hyn yn digwydd eto, barn am ddiogelwch y mosg, a gwybodaeth gan asiantaethau eraill.

Gan fod hwn yn drosedd gwaethygol crefyddol, cafwyd cyngor gan y Prif Gynghorydd Cyfreithiol. Cafodd y diffynnydd ei erlyn gan Adfacad y Goron, a phlediodd yn euog i nifer o droseddau gan gynnwys difrod troseddol gwaethygol crefyddol, ymddygiad bygythiol gwaethygol hiliol, a throsedd trefn gyhoeddus gwaethygol hiliol. Cyflwynwyd datganiad personol y dioddefwr i'r llys, a chyfeiriwyd at y problemau a bu'r mosg yn eu hwynebu. Derbyniodd y diffynnydd ddedfryd waethygol a rhoddodd y Fainc gyfarwyddyd penodol y dylai'r gorchymyn a dderbyniai roi sylw i oblygiadau ei droseddu ac unrhyw isleisiau hiliol/crefyddol oedd yna o bosib.

Llwyddodd CPS Essex i sicrhau fod y Wasg yn y llys, a chafwyd rhai adroddiadau cadarnhaol iawn ynghylch pob agwedd ar yr achos. Roedd y dioddefwyr yn yr achos yn croesawu'r canlyniad. Trwy fynd ati'n fuan i nodi materion allweddol, llwyddwyd i weithio mewn partneriaeth â'r Tîm Plismona yn y Gymdogaeth lleol ac asiantaethau eraill, gydag ymwneud cydgysylltydd trosedd casineb y CPS. O ganlyniad rhoddwyd sylw i'r materion ehangach a oedd yn ymwneud â'r mosg. Er enghraifft, cytunodd yr awdurdod lleol i ystyried cynyddu a gwella'r ddarpariaeth CCTV yn yr ardal yn ogystal â hwylsuso prynu tir gwastraff gan y bwrdd dŵr lleol i'w ddefnyddio yn faes parcio ar gyfer y mosg – a thrwy hynny leihau'r tensiynau gyda'r gymuned ehangach. Cytunodd yr heddlu i fod yn fwy amlwg yn yr ardal, yn arbennig adeg y cyfnod gweddïau ar ddydd Gwener ac ar ddiwrnodau gemau pêl droed. Cytunodd y Swyddog Trwyddedu i fonitro mwy ar y dafarn leol gyda golwg ar ailystyried ei thrwydded pe gwelid bod cysylltiad rhwng y safle ac ymddygiad gwrthgymdeithasol a throsedd yn lleol.

O ganlyniad, ni chafwyd adroddiadau pellach am droseddau yn gysylltiedig â'r mosg, ac mae'r Tîm Plismona yn y Gymdogaeth lleol yn adrodd fod mwy o hyder ymysg pobl sy'n mynychu'r mosg yn yr asiantaethau cyfiawnder troseddol yn lleol.

# Casgliadau Allweddol Trosedd Gwaethygol Hiliol a Chrefyddol


Bydd data am droseddau hiliol a chrefyddol yn cael eu cofnodi o fewn System Reoli Achosion Compass, a'u tynnu o'r system berthynol sef System Gwybodaeth Reoli Compass.

Mae erlyniadau a gwblheir yn disgyn i ddau gategori: euogfarnu, sy'n cynnwys pledion euog, euogfarnu yn dilyn treial ac achosion a brofir yn absenoldeb y diffynnydd; a chanlyniadau aflwyddiannus, sy'n cynnwys pob canlyniad arall gan gynnwys terfynu achosion, cwblhau gwaith gweinyddol, achosion traddodi a ryddhawyd, gwrthod achosion yn dilyn treial a gwrthod dim achos i'w ateb, barnwr yn cyfeirio i ryddfarnu a rhyddfarnu gan reithgor.

## Cyhuddo

O ran y CPS yn penderfynu y dylai diffynnydd gael ei gyhuddo, cododd y ffigur o 59.7% o droseddau gwaethygol hiliol neu grefyddol a gyfeiriwyd at y Gwasanaeth yn 2006-07 i 73.2% yn 2008-09.

### Tabl 1 – Penderfyniadau Cyn Cyhuddo*




| Pob Diffynnydd | 2006-07 | | 2007-08 | | 2008-09 | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Nifer | % | Nifer | % | Nifer | % |
| Cyhuddwyd | 7,886 | 59.7% | 9,115 | 70.1% | 8,673 | 73.2% |
| Cais am ragor o dystiolaeth | 274 | 2.1% | 134 | 1.0% | 84 | 0.7% |
| Dim erlyniad | 2,704 | 20.5% | 2,426 | 18.7% | 1,836 | 15.5% |
| Pob penderfyniad arall | 2,337 | 17.7% | 1,321 | 10.2% | 1,252 | 10.6% |
| **Cyfanswm** | **13,201** | | **12,996** | | **11,845** | |


Rhoddwyd Cyhuddo Statudol ar waith yn llawn ar 3 Ebrill 2006

** Mae ffigurau a gynhwysir yn adroddiad 2007 – 08 yn hepgor yr achosion hynny ble na chafodd canlyniad y penderfyniad ei gasglu'n gyflawn yng nghofnodion y CPS. Er mwyn bod yn gyflawn, mae'r canlyniadau hynny wedi cael eu hychwanegu yn yr adroddiad presennol. Felly mae'r ffigurau uchod yn wahanol i'r rhai yn adroddiad y llynedd*

## Euogfarnau

Yn y pedair blynedd yn diweddu Mawrth 2009, erlynwyd dros 45,200 diffynnydd am droseddau yn ymwneud ag elfennau gwaethygol hiliol neu grefyddol. Mae tabl a siart 2 isod yn dadansoddi erlyniadau dros y cyfnod o bedair blynedd, ac yn dangos i euogfarnau godi o 74% yn 2005-06 i 82% yn 2008-09.

### Tabl 2 – Erlyniadau a Gwblhawyd yn ôl Canlyniad





| | 2005-06 | | 2006-07 | | 2007-08 | | 2008-09 | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Nifer | % | Nifer | % | Nifer | % | Nifer | % |
| Euogfarnau | 6,577 | 74.2% | 9,071 | 77.0% | 10,398 | 79.9% | 9,576 | 82.4% |
| Aflwyddiannus | 2,291 | 25.8% | 2,696 | 23.0% | 2,610 | 20.1% | 2,048 | 17.6% |
| **Cyfanswm** | **8,868** | | **11,713** | | **13,008** | | **11,624** | |

Mae'r tabl a'r siartiau isod yn rhoi dadansoddiad manwl o ganlyniadau erlyniadau ar gyfer troseddau ag ysgogiad hiliol neu grefyddol yn 2006-07, 2007-08 a 2008-09. Cododd pledion euog o 64% i ychydig dan 70%, gan gyfrannu at well cyfradd euogfarnu o 82% yn ei chyfanrwydd yn 2008-09. Bu gostyngiad yn yr erlyniadau a ollyngwyd gan y CPS, gan gynnwys terfynu achosion ac achosion ble na chynigiwyd tystiolaeth, o bron i 15% i lai nag 11%.


Yn 2008-09 y targed oedd gostwng troseddau ag ysgogiad hiliol neu grefyddol a oedd yn aflwyddiannus i 18%. Aethpwyd y tu hwnt i'r targed gan gyrraedd 16.9% yn chwarter olaf y flwyddyn r.

## Tabl 3 – Canlyniadau Erlyn

### Euogfarnau




### Canlyniadau Aflwyddiannus




| | 2006-07 | | 2007-08 | | 2008-09 | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Nifer | % | Nifer | % | Nifer | % |
| Cwblhau Gwaith Gweinyddol | 153 | 1.3% | 182 | 1.4% | 142 | 1.2% |
| Traddodi a ryddhawyd | 79 | 0.7% | 53 | 0.4% | 23 | 0.2% |
| Erlyniadau a Ollyngwyd *gan gynnwys dirwyn achosion i ben, ni chynigiwyd tystiolaeth a thynnu'n ôl* | *1,700* | *14.5%* | *1,631* | *12.5%* | *1,248* | *10.7%* |
| *o'u plith – ni chynigiwyd tystiolaeth* | *887* | *7.6%* | *942* | *7.2%* | *673* | *5.8%* |
| Gwrthodwyd yn dilyn treial llawn | 476 | 4.1% | 478 | 3.7% | 415 | 3.6% |
| Dim achos i'w ateb | 78 | 0.7% | 66 | 0.5% | 41 | 0.4% |
| Barnwr yn cyfeirio i ryddfarnu | 36 | 0.3% | 40 | 0.3% | 18 | 0.2% |
| Rhyddfarnu gan reithgor | 174 | 1.5% | 160 | 1.2% | 161 | 1.4% |
| **Canlyniadau Aflwyddiannus** | **2,696** | **23.0%** | **2,610** | **20.1%** | **2,048** | **17.6%** |
| Ple euog | 7,546 | 64.4% | 8,648 | 66.5% | 8,112 | 69.8% |
| Euogfarnu yn dilyn treial | 1,415 | 12.1% | 1,708 | 13.1% | 1,423 | 12.2% |
| Profwyd yn absenoldeb | 56 | 0.5% | 42 | 0.3% | 41 | 0.4% |
| **Euogfarnau** | **9,017** | **77.0%** | **10,398** | **79.9%** | **9,576** | **82.4%** |
| **Cyfanswm Erlyniadau** | **11,713** | | **13,008** | | **11,624** | |


## Erlyniadau aflwyddiannus

Gall achosion fethu am resymau tystiolaethol, am resymau budd y cyhoedd, oherwydd bod achos yn methu parhau, oherwydd bod achosion yn ddarostyngedig i gwblhau gwaith gweinyddol, ac am resymau eraill. Roedd y cyfrannau o fewn pob categori yn dangos rhai gwahaniaethau o 2007-08 i 2008-09. Yn 2008-09, roedd 6.9% yn aflwyddiannus am resymau gweinyddol (yn debyg i 2007-08); 34.8% am resymau tystiolaethol, cynnydd o 1 y cant o 33.8% y flwyddyn flaenorol; 10.4% er budd y cyhoedd (yn debyg i'r 10.7% a gofnodwyd yn 2007-08); roedd 18.2% yn methu parhau (i lawr o 21.1%), ac roedd 29.7% am resymau eraill, dros 2 bwynt canran yn uwch nag yn 2007-08 (27.4%).

Mae tabl 4 yn rhoi dadansoddiad manylach, gan ddangos y gyfran sy'n methu oherwydd rhesymau allweddol gan gynnwys materion gyda dioddefwyr (sef dioddefwyr yn tynnu cyhuddiadau yn ôl, ble nad oedd tystiolaeth y dioddefwr yn cefnogi'r achos, ac achosion ble methodd dioddefwr fynychu gwrandawiad llys), ble'r oedd elfen gyfreithiol hanfodol ar goll, y rhai ble'r oedd gwrthdrawiad tystiolaeth, a'r rhai ble rhoddwyd rhyddfarn ar ôl treial. O fewn y rhesymau allweddol hyn, fe wnaeth materion gyda dioddefwyr gynyddu o 15% i 22% yn ystod y cyfnod dan sylw oherwydd cynnydd yn nifer y dioddefwyr a fethodd fynychu (6% - 10%) ac yn y gyfran ble nad oedd tystiolaeth y dioddefwyr yn cefnogi achos yr erlyniad (4% - 8%).

Bu gostyngiad mewn achosion yn methu oherwydd bod elfen gyfreithiol hanfodol ar goll dros y cyfnod o 17% i 10%. Fodd bynnag, cododd gwrthdrawiad tystiolaeth ychydig o dan 6% i 7% tra bo rhyddfarnau wedi codi'n bendant bron i 7 bwynt canran o ychydig dan 18% i dros 24%. Cododd y gyfran a fethodd oherwydd rhesymau allweddol o 72% i 89% o bob canlyniad aflwyddiannus.

**Tabl 4 – Rhesymau Allweddol dros Erlyniadau Aflwyddiannus**




| | 2005-06 | | 2006-07 | | 2007-08 | | 2008-09 | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Nifer | % | Nifer | % | Nifer | % | Nifer | % |
| Dioddefwr yn Tynnu Cyhuddiad yn ôl | 107 | 4.7% | 161 | 6.0% | 170 | 6.5% | 95 | 4.6% |
| Dioddefwr Ddim yn Mynychu | 131 | 5.7% | 205 | 7.6% | 240 | 9.2% | 198 | 9.7% |
| Tystiolaeth Dioddefwr ddim yn cefnogi achos | 100 | 4.4% | 164 | 6.1% | 176 | 6.7% | 157 | 7.7% |
| **Cyfanswm Materion gyda Dioddefwyr** | **338** | **14.8%** | **530** | **19.7%** | **586** | **22.5%** | **450** | **22.0%** |
| Gwrthdrawiad Tystiolaeth | 128 | 5.6% | 183 | 6.8% | 155 | 5.9% | 145 | 7.1% |
| Elfen Gyfreithiol Hanfodol ar Goll | 394 | 17.2% | 351 | 13.0% | 295 | 11.3% | 198 | 9.7% |
| Ditiad/Dedfryd Arall | 58 | 2.5% | 90 | 3.3% | 106 | 4.1% | 78 | 3.8% |
| Rhyddfarnu yn dilyn treial | 403 | 17.6% | 538 | 20.0% | 557 | 21.3% | 498 | 24.3% |
| *Cyfanswm Rhesymau Allweddol* | *1,321* | *72.4%* | *1,692* | *82.4%* | *1,699* | *87.5%* | *1,369* | *88.8%* |
| Pob Rheswm Arall | 803 | 35.1% | 851 | 31.6% | 729 | 27.9% | 537 | 26.2% |
| Cwblhau Gwaith Gweinyddol | 167 | 7.3% | 153 | 5.7% | 182 | 7.0% | 142 | 6.9% |
| **Cyfanswm** | **2,291** | | **2,696** | | **2,610** | | **2,048** | |


Mae tabl a siart 5 yn dangos nifer a chyfran y materion sy'n ymwneud â dioddefwyr mewn perthynas â phob canlyniad. Bu cynnydd yn nifer y rhai a fu'n aflwyddiannus oherwydd anawsterau dioddefwyr, o 338 yn 2005-06 i 450 yn 2008-09, tra bo'r cyfrannau wedi aros yn ddigyfnewid ar 4%. Ond cwympodd cyfanswm y canlyniadau aflwyddiannus, o 26% yn 2005-06 i 18% yn 2008-09.

## Tabl 5 – Cymharu Rhesymau Allweddol dros Ganlyniadau Aflwyddiannus

### Rhesymau Allweddol mewn perthynas â phob canlyniad



### % Materion sy'n Ymwneud â Dioddefwyr




| | 2005-06 | | 2006-07 | | 2007-08 | | 2008-09 | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Nifer | % | Nifer | % | Nifer | % | Nifer | % |
| *Cyfanswm Aflwyddiannus oherwydd materion dioddefwyr* | *338* | *3.8%* | *530* | *4.5%* | *586* | *4.5%* | *450* | *3.9%* |
| Cyfanswm Aflwyddiannus | 2,291 | 25.8% | 2,696 | 23.0% | 2,610 | 20.1% | 2,048 | 17.6% |
| Cyfanswm Euogfarnau | 6,577 | 74.2% | 9,017 | 77.0% | 10,398 | 79.9% | 9,576 | 82.4% |
| **Cyfanswm Erlyniadau** | **8,868** | | **11,713** | | **13,008** | | **11,624** | |

## Categori'r prif drosedd

Ar ddiwedd achosion, rhoddir Categori'r Prif Drosedd ar gyfer achos pob diffynnydd er mwyn dangos y math o gyhuddiadau a ddwynwyd a'u difrifoldeb.

Troseddau corfforol a throseddau trefn gyhoeddus oedd y categorïau mwyaf niferus, gan gynrychioli 84% (42% a 42% yn y drefn honno) o erlyniadau troseddau gwaethygol hiliol a chrefyddol yn 2008-09. Roedd difrod troseddol yn gyfrifol am 6% arall, sef dim newid o'r flwyddyn flaenorol. Cofnodwyd patrwm tebyg ar gyfer dynion, gyda 42% yn cael eu categoreiddio yn droseddau corfforol a ac rhai trefn gyhoeddus, a 6% pellach yn rhai difrod troseddol.  Roedd patrwm fymryn yn wahanol ar gyfer menywod, gan fod troseddau corfforol yn uwch ar 46% a rhai trefn gyhoeddus a difrod troseddol ychydig yn is ar 40% a 4% yn y drefn honno. Roedd troseddau dwyn a thrafod nwyddau wedi'u dwyn yn fwy cyffredin ar gyfer menywod hefyd ar 4%. Dynion oedd 84% o'r diffynyddion oedd â phrif drosedd a gofnodwyd yn droseddau corfforol neu'n rhai trefn gyhoeddus, yn debyg i 2007-08.


## Cydraddoldeb

### *(i) Diffynyddions*

### Rhyw

Mae tabl 6 yn dadansoddi rhyw diffynyddion. Mae cyfran y diffynyddion sy'n ddynion wedi parhau fwy neu lai'r un peth ar tua 85%.

### Tabl 6 – - Erlyniadau a Gwblhawyd yn ôl Rhyw y Diffynnydd




| | 2005-06 | | 2006-07 | | 2007-08 | | 2008-09 | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Nifer | % | Nifer | % | Nifer | % | Nifer | % |
| Menywod | 1,264 | 14.3% | 1,792 | 15.3% | 1,970 | 15.1% | 1,794 | 15.4% |
| Dynion | 7,603 | 85.7% | 9,918 | 84.7% | 11,036 | 84.8% | 9,827 | 84.5% |
| Ni wyddys | 1 | 0.0% | 3 | 0.0% | 2 | 0.0% | 3 | 0.0% |
| **Cyfanswm** | **8,868** | | **11,713** | | **13,008** | | **11,624** | |

### Ethnigrwydd

Cesglir data am ethnigrwydd diffynyddion gan y CPS yn unol â diffiniadau cytûn y System Cyfiawnder Troseddol ar gyfer yr 16+1 o gategorïau ethnig. Yn 2008-09, nodwyd bod 75% o ddiffynyddion mewn troseddau gwaethygol hiliol a chrefyddol yn perthyn i'r categori Gwyn Prydeinig, a bod 79% yng nghategori Gwyn. Nodwyd bod 5% o ddiffynyddion yn Asiaidd, ac ychydig dan 5% yn Ddu. Nid oedd 4% o ddiffynyddion wedi datgan eu hethnigrwydd wrth gael eu harestio.

### Data cydraddoldeb arall


Bu data am grefydd neu gred ac anabledd diffynyddion yn cael ei gasglu ers Ebrill 2007 ac mae cyflawnrwydd a chywirdeb y data hwn yn parhau i gael eu datblygu.

### *(ii) Dioddefwy*

**Rhyw**

Mae tabl 7 yn dadansoddi rhyw dioddefwyr. Fe ddaw data am ddioddefwyr o'r System Reoli Tystion, ac mae ar gael o Ebrill 2006 yn unig. Mae cyflawnrwydd a chywirdeb y wybodaeth hon yn parhau i gael eu datblygu. O blith y dioddefwyr hynny y nodwyd eu rhyw, y gyfran uchaf oedd dynion, sef 72% yn 2006-07 a 68% yn 2007-08 a 2008-09.

### Table 7 – Rhyw Dioddefwyr*




| | 2006-07 | | 2007-08 | | 2008-09 | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Nifer | % | Nifer | % | Nifer | % |
| Menywod | 381 | 9.9% | 1,055 | 13.9% | 1,623 | 20.5% |
| Dynion | 966 | 25.1% | 2,278 | 30.0% | 3,430 | 43.3% |
| Ni wyddys | 2,501 | 65.0% | 4,250 | 56.0% | 2,864 | 36.2% |
| **Cyfanswm** | **3,848** | | **7,583** | | **7,917** | |

*Cafodd data o 2006-07 ei adrodd ar gyfer pob dioddefwyr boed sifiliaid ai peidio, ac mae data o 2007-08 ymlaen yn adrodd am ddioddefwyr sy'n sifiliaid yn unig.

**Data cydraddoldeb arall**

Mae data am ddioddefwyr yn cael ei dynnu o'r System Reoli Tystion. Y mae data am ethnigrwydd ar gael o Ebrill 2006, a data am grefydd neu gred ac anabledd o Ebrill 2007. Mae cyflawnrwydd a chywirdeb y wybodaeth hon yn parhau i gael eu datblygu ac ni chynhwyswyd ffigurau yn yr adroddiad presennol. Y mae gwaith ar y gweill ar gyfer 2009-10 i wella casglu data ac ansawdd y data.

## Gwasanaethau Trosedd Gwaethygol Hiliol a Chrefyddol

Cafodd y wybodaeth hon ei chasglu ers Ebrill 2007, ac mae'n parhau i gael ei datblygu hefyd. O blith y dioddefwyr a thystion hynny a gyfeiriwyd at wasanaethau cefnogaeth neu asiantaeth arbenigol, cofnodwyd bod llai nag 1% wedi'u cyfeirio at 'asiantaeth arbenigol ar drosedd casineb' yn 2008-09. Mae cyflawnrwydd a chywirdeb y wybodaeth hon yn parhau i gael eu datblygu. Fodd bynnag cyfeiriwyd 76% at un ai asiantaeth cefnogi dioddefwyr neu dystion, o gymharu â 18% yn y flwyddyn flaenorol, tra bo 23% yn destun 'cyfeirio arall'; 82% yn 2007-08.

# Trosedd Homoffobig a Thrawsffobig

Mae'r CPS yn cydnabod natur ddifrifol trosedd homoffobig a thrawsffobig. Cafodd ein datganiadau polisi cyhoeddus ar gyfer erlyn troseddau casineb homoffobig a thrawsffobig eu diweddaru a'u hail-lansio ym mis Tachwedd 2007. Mae'r dogfennau yn rhoi datganiad cyhoeddus, clir nad yw troseddau homoffobig a thrawsffobig yn dderbyniol a, lle bo'n briodol, y byddant yn cael eu herlyn yn effeithlon drwy'r llysoedd troseddol. Maent yn cydnabod y materion penodol sy'n wynebu pobl lesbiaidd, hoyw, trawsrywiol a deurywiol wrth ddod ymlaen i chwarae eu rhan fel dioddefwyr a thystion. Bydd llawer o bobl na fyddant eisiau i eraill ddod i wybod beth yw eu statws trwy gyfrwng y broses cyfiawnder troseddol ac mae ein datganiad polisi cyhoeddus yn nodi'n eglur y byddwn yn gwneud popeth o fewn ein gallu i warchod cyfeiriadedd rhywiol a hunaniaeth o ran rhywedd pobl.

Ers Ebrill 2005 mae Gwasanaeth Erlyn y Goron wedi adrodd ynghylch erlyn troseddau homoffobig a thrawsffobig fel rhan o broses adolygu perfformiad Rhanbarthau'r CPS. Tra ydym yn cydnabod natur benodol y troseddau hyn, o fewn yr adroddiad hwn bydd troseddau homoffobig a thrawsffobig yn cael eu grwpio dan y categori homoffobig. Mae data am droseddau homoffobia yn cael ei gofnodi o fewn System Reoli Achosion Compass, ac yn cael ei dynnu o'r system berthynol sef System Gwybodaeth Reoli Compass.

Cynhaliodd y CPS adolygiad thematig tua diwedd 2008-09 er mwyn cefnogi gweithrediad llwyr y polisi a chyfarwyddyd cyfreithiol i erlynwyr, a nodwyd nifer o enghreifftiau o arfer ardderchog yn Rhanbarthau'r CPS, a gafodd eu cyhoeddi a'u lledaenu ym mis Mai 2009.

Disgwylir y bydd trosedd newydd, sef ysgogi casineb ar sail cyfeiriadedd rhywiol yn dod i rym yn yr hydref 2009. Mae'r troseddau yn ymdrin â geiriau neu ymddygiad, neu ddeunydd sy'n fygythiol ei natur ac a fwriedir i ysgogi casineb yn erbyn grŵp o bobl a ddiffinnir gan eu cyfeiriadedd rhywiol. Bu'r ddedfwriaeth ar y llyfrau statud am beth amser (adran 74 ac Atodlen 16 Deddf Cyfiawnder Troseddol a Mewnfudo 2008, gan newid Deddf Trefn Gyhoeddus 1986). Cafodd ei thrafod ymhellach yn y Senedd yn ystod taith y Mesur Crwneriaid a Chyfiawnder, yn enwedig ynghylch y cymal am ryddid mynegiant. Bydd Cyfarwyddyd Cyfreithiol yn cael ei baratoi a'i ddosbarthu i erlynwyr yn barod erbyn y daw'r trosedd i rym.

Eleni, gwelwyd cynnydd yn y gyfradd pryd y dewisodd y CPS gyhuddo diffynnydd o gyflawni trosedd. Yn ogystal, er gwaethaf nifer llai o achosion yn cael eu cyfeirio gan yr heddlu, bu cynnydd yn nifer yr achosion a erlynwyd. Gwelwyd gostyngiad yn y ceisiadau gan y CPS ar i'r heddlu gyflwyno rhagor o dystiolaeth cyn cyhuddo, a chafodd cyfran lai o achosion eu gollwng gan y CPS. Gyda'i gilydd, mae hyn yn awgrymu bod ymchwiliadau yn fwy trwyadl a bod y CPS yn mynd ati i erlyn yn weithredol yn y maes hwn. Roedd cynnydd cyffredinol yn y gyfradd euogfarnu ar gyfer troseddau homoffobig. Fodd bynnag, methwyd cyrraedd y targed ar gyfer trosedd casineb o fymryn, sef 0.8%, gan ddangos fod yna le i wella o hyd.

Mae'r adran isod yn rhoi dadansoddiad pellach o'r rhesymau allweddol dros ganlyniadau aflwyddiannus. Y rheswm mwyaf cyffredin o bell ffordd oedd rhyddfarnu ar ôl treial. Y mae yna faterion o hyd yn ymwneud â chadw ymgysylltiad dioddefwyr gyda'r achos, gan awgrymu bod angen gwneud rhagor o waith er mwyn adnabod a bodloni anghenion cefnogaeth dioddefwyr a thystion yn yr achosion hyn.

Yn debyg i RARA, troseddau corfforol a throseddau trefn gyhoeddus oedd y categorïau mwyaf niferus, gan amlygu difrifoldeb trosedd casineb a natur dreisgar neu gyhoeddus y troseddau hyn.

.

**Trosedd casineb homoffobig: Astudiaeth Achos**

Roedd y trosedd hwn yn ymwneud â thargedu teulu dyn hoyw. Ar noson y digwyddiad, bu'r diffynyddion yn dilyn mab y dioddefwr a chyfeiriwyd sarhad homoffobig tuag ato. Bu ymosodiad ac wedi hynny aeth y diffynyddion ar ôl y mab nes iddo gyrraedd cyfeiriad cartref ei dad ac yno dechreuwyd ymosod ar gartref y dioddefwr. Roedd teulu'r dioddefwr i gyd gartref a phlentyn ifanc yn bresennol. Bu'n rhaid i'r teulu lochesu yn eu cartref tra chafodd nifer o eitemau eu taflu tuag atynt gan gynnwys bricsen, côn traffig a bloc o bren. Roedd gan un o'r diffynyddion arf, sef yr hyn a ddisgrifiwyd fel ciw snwcer. Ar un adeg, aeth dau ddiffynydd at gefn y tŷ, gan roi'r tŷ dan warchae i bob pwrpas.

Cafodd yr heddlu eu galw, daeth swyddogion yno a chafodd rhai eu harestio. Cafodd naw o'r diffynyddion eu cyhuddo o affräe a rhai eu cyhuddo o ymosod hefyd. Aeth dau ddiffynnydd gerbron y Llys Ieuenctid yn dilyn pledion euog. Cafodd gweddill y diffynyddion eu traddodi i Lys y Goron ar gyfer treial.

Plediodd y diffynyddion yn euog ar ddiwrnod y treial.

Aeth yr Erlynydd i'r afael â'r mater fel 'proses o'r crud i'r bedd' ac roedd yn rhan o gyfarfod cynnar iawn gyda'r swyddogion cyn cyhuddo. Rhoddwyd cyngor cyn cyhuddo a gwnaed cais am fesurau arbennig, casglwyd datganiad personol y dioddefwr a chaed perthynas weithio agos rhwng y CPS a'r heddlu gydol yr adeg. Fe wnaeth y CPS dynnu sylw'r Llys at y darpariaethau dedfrydu dan adran 146 CJA 2003 a'r effaith a gafodd yr achos hwn ar y gymuned ac ar y dioddefwr a'i deulu. Erlynydd sy'n arbenigo ar achosion fel hyn a fu'n arwain yr achos drwy'r adeg ac yn cyfarwyddo'r cwnsel.

Plediodd yr holl ddiffynyddion yn euog a chawsant ddedfrydau o garchar. Dywedodd y barnwr fod hwn yn ddigwyddiad ofnadwy a dywedodd mewn llys agored fod natur homoffobig y trosedd wedi golygu tariff uwch ym mhob dedfryd.


# Canfyddiadau Allweddol Trosedd Homoffobig

Mae erlyniadau a gwblheir yn disgyn i ddau gategori: euogfarnu, sy'n cynnwys pledion euog, euogfarnu yn dilyn treial ac achosion a brofir yn absenoldeb y diffynnydd; a chanlyniadau aflwyddiannus, sy'n cynnwys pob canlyniad arall gan gynnwys terfynu achosion, cwblhau gwaith gweinyddol, achosion traddodi a ryddhawyd, gwrthod achosion yn dilyn treial a gwrthod dim achos i'w ateb, barnwr yn cyfeirio i ryddfarnu a rhyddfarnu gan reithgor.

## Cyhuddo

Penderfynodd yr CPS y dylid cyhuddo diffynnydd mewn 54.1% o achosion trosedd homoffobig a gyfeiriwyd at y Gwasanaeth yn 2006-07, gan godi i 65.1% yn 2008 - 09.

### Tabl 1 – Penderfyniadau Cyn Cyhuddo *




| Pob Diffynnydd | 2006-07 | | 2007-08 | | 2008-09 | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Nifer | % | Nifer | % | Nifer | % |
| Cyhuddwyd | 504 | 54.1% | 758 | 62.2% | 710 | 65.1% |
| Cais am ragor o dystiolaeth | 23 | 2.5% | 14 | 1.1% | 6 | 0.6% |
| Dim erlyniad | 215 | 23.1% | 272 | 22.3% | 222 | 20.4% |
| Pob penderfyniad arall | 190 | 20.4% | 175 | 14.4% | 152 | 13.9% |
| **Cyfanswm** | **932** | | **1,219** | | **1,090** | |


Rhoddwyd Cyhuddo Statudol ar waith yn llawn ar 3 Ebrill 2006

** Mae ffigurau a gynhwysir yn adroddiad 2007-08 yn hepgor yr achosion hynny ble na chafodd canlyniad y penderfyniad ei gasglu'n gyflawn yng nghofnodion y CPS. Er mwyn bod yn gyflawn, mae'r canlyniadau hynny wedi cael eu hychwanegu yn yr adroddiad presennol. Felly mae'r ffigurau uchod yn wahanol i'r rhai yn adroddiad y llynedd*

## Euogfarnau

Yn y pedair blynedd yn diweddu Mawrth 2009, cafodd mwy na 3,400 o ddiffynyddion eu herlyn am achosion yn ymwneud â homoffobia. Mae tabl a siart 2 isod yn dadansoddi erlyniadau dros y cyfnod o bedair blynedd, gan ddangos bod euogfarnau wedi codi o 71% yn 2005-06 i 81% yn 2008-09.

### Tabl 2 – Erlyniadau a Gwblhawyd yn ôl Canlyniad





| | 2005-06 | | 2006-07 | | 2007-08 | | 2008-09 | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Nifer | % | Nifer | % | Nifer | % | Nifer | % |
| Euogfarnau | 426 | 71.0% | 604 | 73.5% | 778 | 78.2% | 815 | 80.5% |
| Aflwyddiannus | 174 | 29.0% | 218 | 26.5% | 217 | 21.8% | 198 | 19.5% |
| **Cyfanswm** | **600** | | **822** | | **995** | | **1,013** | |

Mae'r tabl a'r siatiau isod yn rhoi dadansoddiad manwl o ganlyniadau erlyn ar gyfer troseddau homoffobig yn 2006-07, 2007-08 a 2008-09. Cododd pledion euog o 58% i 67%, gan gyfrannu at well cyfradd euogfarnu yn gyffredinol sef 81% yn 2008-09. Bu gostyngiad yn yr erlyniadau a ollyngwyd gan y CPS, gan gynnwys terfynu achosion ac achosion ble na chynigiwyd tystiolaeth, o 17% i 11%.


Yn 2008-09 y targed oedd gostwng achosion aflwyddiannus mewn achosion o droseddau a ysgogwyd gan homoffobia i 18%. Roedd y canlyniadau y tu allan i'r targed ar 20.8% yn y pedwerydd chwarter.

## Tabl 3 – Canlyniadau Erlyn

### Euogfarnau




### Canlyniadau Aflwyddiannus




| | 2006-07 | | 2007-08 | | 2008-09 | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Nifer | % | Nifer | % | Nifer | % |
| Cwblhau Gwaith Gweinyddol | 7 | 0.9% | 12 | 1.2% | 15 | 1.5% |
| Traddodi a ryddhawyd | 4 | 0.5% | 0 | 0.0% | 1 | 0.1% |
| Erlyniadau a Ollyngwyd *gan gynnwys dirwyn achosion i ben, ni chynigiwyd tystiolaeth a thynnu'n ôl* | *136* | *16.5%* | *137* | *13.8%* | *115* | *11.4%* |
| *o'u plith – ni chynigiwyd tystiolaeth* | *64* | *7.8%* | *67* | *6.7%* | *62* | *6.1%* |
| Gwrthodwyd yn dilyn treial llawn | 43 | 5.2% | 53 | 5.3% | 48 | 4.7% |
| Dim achos i'w ateb | 12 | 1.5% | 7 | 0.7% | 7 | 0.7% |
| Barnwr yn cyfeirio i ryddfarnu | 4 | 0.5% | 2 | 0.2% | 3 | 0.3% |
| Rhyddfarnu gan reithgor | 12 | 1.5% | 6 | 0.6% | 9 | 0.9% |
| **Canlyniadau Aflwyddiannus** | **218** | **26.5%** | **217** | **21.8%** | **198** | **19.5%** |
| Ple euog | 478 | 58.2% | 662 | 66.5% | 683 | 67.4% |
| Euogfarnu yn dilyn treial | 124 | 15.1% | 114 | 11.5% | 130 | 12.8% |
| Profwyd yn absenoldeb | 2 | 0.2% | 2 | 0.2% | 2 | 0.2% |
| **Euogfarnau** | **604** | **73.5%** | **778** | **78.2%** | **815** | **80.5%** |
| **Cyfanswm Erlyniadau** | **822** | | **995** | | **1,013** | |

## Erlyniadau aflwyddiannus

Gall achosion fethu am resymau tystiolaethol, am resymau budd y cyhoedd, oherwydd bod achos yn methu parhau, oherwydd bod achosion yn ddarostyngedig i gwblhau gwaith gweinyddol, ac am resymau eraill. Roedd y cyfrannau o fewn pob categori yn dangos rhai gwahaniaethau o 2007-08 i 2008-09. Yn 2008-09, roedd 7.6% yn aflwyddiannus am resymau gweinyddol, sef uwch na'r 5.5% a gofnodwyd yn y flwyddyn flaenorol; 39.4% am resymau tystiolaethol, sef cwymp bach ar 2007-08 ar 40.1%; 11.1% er budd y cyhoedd, dim newid o'r flwyddyn flaenorol; roedd 12.1% yn methu parhau, gwelliant ar yr 13.8% yn y cyfnod cynharach, ac roedd 29.8% yn perthyn i resymau eraill, sef tebyg i'r ffigur a gofnodwyd yn 2007-08 (29.5%).

Mae dadansoddiad manylach i'w weld yn nhabl 4, gan ddangos y gyfran sy'n methu oherwydd rhesymau allweddol, gan gynnwys materion gyda dioddefwyr (ble mae dioddefwyr yn tynnu cyhuddiadau yn ôl, achosion ble methodd dioddefwr fynychu gwrandawiad llys a ble nad yw tystiolaeth y dioddefwr yn cefnogi'r achos), y rhai ble'r oedd elfen gyfreithiol hanfodol ar goll, gwrthdrawiad tystiolaeth, a'r rhai ble cafodd y diffynnydd ryddfarniad. O fewn y rhesymau allweddol hyn, rhyddfarnu yn dilyn treial yw'r categori unigol mwyaf o hyd, gan godi yn ystod y cyfnod dan sylw o 17% i 25%. Bu cwymp yn y gyfran a fethodd oherwydd i ddioddefwr dynnu cyhuddiadau yn ôl, o 6% i 4%, tra bo'r rhai a fethodd oherwydd tystiolaeth y dioddefwr yn cefnogi'r achos wedi codi o 6% i ychydig dan 10%. Cododd y gyfran a fethodd oherwydd materion dioddefwyr dros 2 bwynt canran yn ystod y cyfnod, o 17.2% i 19.7% o'r holl ganlyniadau aflwyddiannus. Bu cwymp yn yr achosion a fethodd oherwydd bod elfen gyfreithiol hanfodol ar goll o 14% i 12%, tra bo'r rhai aflwyddiannus oherwydd gwrthdrawiad tystiolaeth wedi codi o 3% i 6%. Cododd cyfran cyfanswm y rhesymau allweddol dros achosion yn methu o 55% i 66% dros y cyfnod o bedair blynedd.

## Tabl 4 – Rhesymau Allweddol dros Erlyniadau Aflwyddiannus





| | 2005-06 | | 2006-07 | | 2007-08 | | 2008-09 | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Nifer | % | Nifer | % | Nifer | % | Nifer | % |
| Dioddefwr yn Tynnu Cyhuddiad yn ôl | 10 | 5.7% | 14 | 6.4% | 5 | 2.3% | 8 | 4.0% |
| Dioddefwr Ddim yn Mynychu | 10 | 5.7% | 13 | 6.0% | 19 | 8.8% | 12 | 6.1% |
| Tystiolaeth Dioddefwr ddim yn cefnogi achos | 10 | 5.7% | 13 | 6.0% | 13 | 6.0% | 19 | 9.6% |
| **Cyfanswm Materion gyda Dioddefwyr** | **30** | **17.2%** | **40** | **18.3%** | **37** | **17.1%** | **39** | **19.7%** |
| Gwrthdrawiad Tystiolaeth | 6 | 3.4% | 9 | 4.1% | 15 | 6.9% | 11 | 5.6% |
| Elfen Gyfreithiol Hanfodol ar Goll | 25 | 14.4% | 31 | 14.2% | 32 | 14.7% | 24 | 12.1% |
| Ditiad/Dedfryd Arall | 6 | 3.4% | 5 | 2.3% | 9 | 4.1% | 7 | 3.5% |
| Rhyddfarnu yn dilyn treial | 29 | 16.7% | 45 | 20.6% | 47 | 21.7% | 50 | 25.3% |
| *Cyfanswm Rhesymau Allweddol* | *96* | *55.2%* | *130* | *59.6%* | *140* | *64.5%* | *131* | *66.2%* |
| Pob Rheswm Arall | 63 | 39.1% | 81 | 37.2% | 65 | 30.0% | 52 | 26.3% |
| Administrative finalisations | 10 | 5.7% | 7 | 3.2% | 12 | 5.5% | 15 | 7.6% |
| **Cyfanswm** | **174** | | **218** | | **217** | | **198** | |


Mae tabl a siart 5 yn dangos nifer a chyfran y materion sy’n ymwneud â dioddefwyr mewn perthynas â phob canlyniad. Tra bo niferoedd y rhai a fu’n aflwyddiannus oherwydd anawsterau dioddefwyr wedi cynyddu, o 30 yn 2005-06 i 39 yn 2008-09, gwelwyd cwymp ynddynt o ran cyfran, o 5% i lai na 4%. Cwympodd cyfanswm y canlyniadau aflwyddiannus o 29% yn 2005-06 i 20% yn 2008-09.

## Tabl 5 – Cymharu Rhesymau Allweddol dros Ganlyniadau Aflwyddiannus

### Rhesymau Allweddol mewn perthynas â phob canlyniad




### % Materion sy'n Ymwneud â Dioddefwyr




| | 2005-06 | | 2006-07 | | 2007-08 | | 2008-09 | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Nifer | % | Nifer | % | Nifer | % | Nifer | % |
| *Cyfanswm Aflwyddiannus oherwydd materion dioddefwyr* | *30* | *5.0%* | *40* | *4.9%* | *37* | *3.7%* | *39* | *3.8%* |
| Cyfanswm Aflwyddiannus | 174 | 29.0% | 218 | 26.5% | 217 | 21.8% | 198 | 19.5% |
| Cyfanswm Euogfarnau | 426 | 71.0% | 604 | 73.5% | 778 | 78.2% | 815 | 80.5% |
| **Cyfanswm Erlyniadau** | **600** | | **822** | | **995** | | **1,013** | |

## Categori'r prif drosedd

Ar ddiwedd achosion, rhoddir Categori'r Prif Drosedd ar gyfer achos pob diffynnydd er mwyn dangos y math o gyhuddiadau a ddwynwyd a'u difrifoldeb.

Troseddau corfforol a throseddau trefn gyhoeddus oedd y categori mwyaf niferus, gan gynrychioli 48% a 36% o erlyniadau trosedd homoffobig yn 2008-09. Cofodwyd patrwm tebyg ar gyfer dynion, gyda 48% yn cael eu categoreiddio yn droseddau corfforol, a 35% yn drefn gyhoeddus. Roedd patrwm ychydig yn wahanol ar gyfer menywod, gyda throseddau corfforol yn is ar 45% a threfn gyhoeddus yn uwch ar 39%. Dynion oedd 87% o'r diffynyddion ble nodwyd bod y prif drosedd yn un o drosedd corfforol.


### Cydraddoldeb

### *(i) Diffynyddion*

### Rhyw

Mae tabl 6 yn dadansoddi rhyw diffynyddion. Gwelwyd cyfran y diffynyddion sy'n ddynion yn gostwng o 90% yn 2005-06 i 86% yn 2008-09.

### Tabl 6 – Erlyniadau a Gwblhawyd yn ôl Rhyw y Diffynnydd




| | 2005-06 | | 2006-07 | | 2007-08 | | 2008-09 | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Nifer | % | Nifer | % | Nifer | % | Nifer | % |
| Menywod | 60 | 10.0% | 95 | 11.6% | 134 | 13.5% | 143 | 14.1% |
| Dynion | 540 | 90.0% | 727 | 88.4% | 861 | 86.5% | 870 | 85.9% |
| Ni wyddys | 0 | 0.0% | 0 | 0.0% | 0 | 0.0% | 0 | 0.0% |
| **Cyfanswm** | **600** | | **822** | | **995** | | **1,013** | |

### Ethnigrwydd

Bydd y CPS yn casglu data ethnigrwydd am ddiffynyddion yn unol â'r diffiniadau cytûn y System Cyfiawnder Troseddol ar gyfer yr 16+1 categori ethnig. Yn 2008-09, nodwyd bod 78% o ddiffynyddion trosedd homoffobig yn perthyn i'r categori Gwyn Prydeinig, a 81% yn perthyn i gategori Gwyn, sef ychydig yn uwch na'r flwyddyn flaenorol ar 76% a 79% yn y drefn honno. Nodwyd bod 2% o ddiffynyddion yn Asiaidd, a nodwyd bod 4% pellach yn Ddu. Nid oedd 4% o ddiffynyddion wedi datgan eu hethnigrwydd wrth gael eu harestio.

### Data cydraddoldeb arall


Bu data am grefydd neu gred ac anabledd diffynyddion yn cael ei gasglu ers Ebrill 2007 ac mae cyflawnrwydd a chywirdeb y data hwn yn parhau i gael eu datblygu.

## *(ii) Dioddefwyr*

### Rhyw

Mae tabl 7 yn dadansoddi rhyw dioddefwyr. Tynnir data am ddioddefwyr o'r System Reoli Tystion, ac mae ar gael o Ebrill 2006 yn unig. Mae cyflawnrwydd a chywirdeb y wybodaeth hon yn parhau i gael eu datblygu. O blith y dioddefwyr hynny y nodwyd eu rhyw, y gyfran uchaf oedd dynion, ar 61% yn 2006-07 a 65% yn 2008-09.

### Tabl 7 – Rhyw Dioddefwyr*




| | 2006-07 | | 2007-08 | | 2008-09 | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Nifer | % | Nifer | % | Nifer | % |
| Menywod | 43 | 14.6% | 103 | 16.7% | 149 | 21.0% |
| Dynion | 67 | 22.8% | 191 | 31.0% | 281 | 39.6% |
| Ni wyddys | 184 | 62.6% | 322 | 52.3% | 280 | 39.4% |
| **Cyfanswm** | **294** | | **616** | | **710** | |

*Cafodd data o 2006-07 ei adrodd ar gyfer pob dioddefwyr boed sifiliaid ai peidio, ac mae data o 2007- 08 ymlaen yn adrodd am ddioddefwyr sy'n sifiliaid yn unig

### Data cydraddoldeb arall

Bydd data am ddioddefwyr yn cael ei dynnu o'r System Reoli Tystion. Y mae data am ethnigrwydd ar gael o Ebrill 2006, a data am grefydd neu gred ac anabledd o Ebrill 2007. Mae cyflawnrwydd a chywirdeb y wybodaeth hon yn parhau i gael eu datblygu ac ni chynhwysswyd ffigurau yn yr adroddiad presennol. Bwriedir gwneud gwaith yn 2009-2010 i wella casglu data ac ansawdd y data.

## Gwasanaethau Trosedd Homoffobig

Cafodd y wybodaeth hon ei chasglu ers Ebrill 2007. O blith y dioddefwyr a thystion hynny a gyfeiriwyd at wasanaethau cefnogaeth neu asiantaeth arbenigol, cofnodwyd bod 2% wedi'u cyfeirio at 'asiantaeth arbenigol' yn 2008-09. Mae cyflawnrwydd a chywirdeb y wybodaeth hon yn parhau i gael eu datblygu. Cofnodwyd bod 82% wedi'u cyfeirio at un ai asiantaeth cefnogi dioddefwyr neu dystion o gymharu â 30% y flwyddyn flaenorol, tra bo 16% yn destun 'cyfeirio arall', 70% yn 2007-08.

# Trosedd Casineb tuag at Bobl Anabl

Mae'r CPS yn cydnabod y gall pobl anabl fod yn darged ar gyfer trosedd ar sail gelyniaeth tuag at eu hanabledd neu eu hanabledd canfyddedig. Rydym yn deall fod pobl anabl yn pryderu nad yw pobl yn hysbysu'r awdurdodau am yr holl droseddau casineb tuag at bobl anabl ac nad yw asiantaethau cyfiawnder troseddol yn eu cofnodi fel trosedd casineb tuag at bobl anabl. Rydym yn gwybod, er mwyn meithrin hyder pobl anabl, bod angen i ni dynnu sylw at yr achosion hynny a ganfyddir yn rhai sy'n droseddau casineb tuag at bobl anabl a, lle bo digon o dystiolaeth fod trosedd yn drosedd casineb tuag at bobl anabl, rhaid i ni wneud pob ymdrech i ddwyn hyn i sylw'r llys ar y cam dedfrydu.

Cafodd y dogfennau polisi cyhoeddus ar drosedd casineb tuag at bobl anabl, a'r arweiniad ar gyfer erlynwyr, eu lansio ym mis Chwefror 2007. Ers yr adroddiad blynyddol cyntaf ar drosedd casineb, cynhaliwyd nifer o fentrau uchel eu proffil ac ar draws y llwyodraeth er mwyn ymateb i bryderon ynghylch cyfradd isel adrodd ac erlyn troseddau casineb tuag at bobl anabl. Bu'r CPS yn gweithio'n agos gyda chydweithwyr yn y Llywodraeth i ddatblygu cynllun gweithredu trosedd casineb ar draws y llywodraeth (gweler y cyflwyniad), ac yn arbennig gyda'r tîm Gwerthfawrogi pobl yn yr Adran Iechyd er mwyn canolbwyntio ar fynd i'r afael â throsedd casineb yn erbyn pobl ag anableddau dysgu. Bu'r Cyfarwyddwr Erlyniadau Cyhoeddus Keir Starmer QC yn annerch rhanddeiliaid allweddol yn lansiad ymchwil a gyhoeddwyd gan y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol i drais yn erbyn pobl anabl[5], gan ddisgrifio'r camau y mae'r CPS yn eu cymryd i wella perfformiad yn y maes hwn.

Roedd hyn yn adeiladu ar waith ei ragflaenydd, Syr Ken Macdonald QC, a roddodd brif araith i Gyngor y Bar ym mis Hydref 2008 lle nododd yn eglur y safonau y mae'r CPS yn eu disgwyl gan ei erlwynwyr a'r rhai y bydd y CPS yn eu cyfarwyddo ar gyfer erlyn achosion trosedd casineb tuag at bobl anabl[6]. Cafodd y gweithredoedd hyn ar y lefelau uchaf dderbyniad da a gosodwyd y fframwaith ar gyfer arweiniad pellach ar gyfer erlynwyr, a fydd yn canolbwyntio ar adnabod tystiolaeth o elyniaeth a mynd ati'n effeithlon i lunio achosion trosedd casineb tuag at bobl anabl, a gyhoeddir yn ddiweddarach eleni.

Fel rhan o broses adolygu perfformiad y CPS, bu Rhanbarthau CPS ledled y wlad yn adolygu eu cynnydd o ran gweithredu'r polisi ac arweiniad ar drosedd casineb tuag at bobl anabl. Rhoddir graddau i wahanol Ranbarthau ar eu perfformiad yn ddiweddarach eleni. Mae'r ffocws hwn ar berfformiad yn y maes cymhleth a sensitif hwn wedi arwain at ddigwyddiadau codi ymwybyddiaeth ledled y wlad, ymgysylltiad creadigol gan bobl anabl a gwir welliannau mewn perfformiad.

Fe wnaeth nifer yr achosion a erlynwyd gan y CPS fwy na dyblu yn 2008-09. Er i'r gyfradd erlyniadau llwyddiannus ostwng ychydig, mae'r cynnydd hwn mewn niferoedd yn galonogol iawn ac yn awgrymu bod yr heddlu ac elynwyr yn dod yn well am adnabod a thynnu sylw at yr achosion hyn.

O gymharu ag achosion RARA a throsedd casineb homoffobig, fe wnaeth y CPS gyhuddo llai o achosion, roedd y gyfradd pledion euog yn is a chyfradd gollwng achosion yn uwch; er hynny, fe wnaeth y gyfradd euogfarnu ar ôl treial gynyddu'n sylweddol.

[5] Sin et. Al (2009) Disabled people's experiences of targeted violence and hostility ar gael yn www.equalityhumanrights.com
[6] http://www.cps.gov.uk/news/articles/dhc_dpp_speech/

Yn debyg i linynnau eraill trosedd casineb, elfen gyfreithiol hanfodol ar goll a rhyddfarnu ar ôl treial oedd y categorïau sengl mwyaf. O gymharu, nid oedd materion dioddefwyr yn arwyddocaol ar gyfer canlyniadau aflwyddiannus. Mae hyn yn awgrymu bod y treialon sy'n mynd ymlaen yn cael eu cefnogi'n dda. Fodd bynnag, y mae hefyd yn awgrymu bod angen rhagor o welliannau o ran paratoi achosion gan y tîm erlyn.

Yn debyg i drosedd RARA a Homoffobig, roedd troseddau corfforol yn gategori cyffredin, gan gynrychioli 45% o droseddau casineb tuag at bobl anabl. Fodd bynnag, roedd troseddau eraill yn dangos patrwm gwahanol gan gynnwys dwyn a thrafod nwyddau wedi'u dwyn, troseddau rhywiol a lladrata.

**Trosedd casineb tuag at bobl anabl- astudiaeth achos**

Ymosodwyd ar ddyn anabl wrth iddo gerdded i lawr y stryd yn ystod y dydd. Ar ôl i'r dioddefwr ddweud wrth y diffynnydd ei fod yn anabl, fe wnaeth y diffynnydd ymosod arno drachefn a'i sarhau yn eiriol eto. Roedd angen triniaeth feddygol ar y dioddefwr ac fe wnaeth y digwyddiad beri trallod mawr iddo.

Yn fuan iawn nododd yr erlynydd fod hwn yn achos o drosedd casineb tuag at bobl anabl a bu'n ystyried yr angen am fesurau arbennig. Plediodd y diffynnydd yn euog i gyhuddiad o guro dan adran 39. Ar y cam dedfrydu, tynnodd yr erlynydd sylw'r llys at Adran 146 Deddf Cyfiawnder Troseddol 2003 sy'n dweud, os yw diffynnydd wedi arddangos neu wedi'i gymell gan elyniaeth ar sail anabledd neu anabledd canfyddedig person, yna rhaid i'r llys drin hyn fel ffactor gwaethygol ar y cam dedfrydu. Roedd y dioddefwr wedi cwblhau datganiad personol y dioddefwr a chyflwynwyd hwnnw i'r llys. Wrth ddedfrydu, cyfeiriodd y llys yn benodol at yr ymosodiad ar berson anabl fel ffactor a waethygai'r trosedd.


# Canfyddiadau Allweddol Trosedd Casineb tuag at Bobl Anabl

Mae erlyniadau a gwblheir yn disgyn i ddau gategori: euogfarnu, sy'n cynnwys pledion euog, euogfarnu yn dilyn treial ac achosion a brofir yn absenoldeb y diffynnydd; a chanlyniadau aflwyddiannus, sy'n cynnwys pob canlyniad arall gan gynnwys terfynu achosion, cwblhau gwaith gweinyddol, achosion traddodi a ryddhawyd, gwrthod achosion yn dilyn treial a gwrthod dim achos i'w ateb, barnwr yn cyfeirio i ryddfarnu a rhyddfarnu gan reithgor.

## Cyhuddo

Penderfynodd y CPS y dylid cyhuddo diffynnydd mewn 66% o'r holl achosion digwyddiadau anabledd a gyfeiriwyd at y Gwasanaeth yn 2008-09: ychydig yn is na'r 67% a gyhuddwyd yn 2007-08.

### Tabl 1 – Penderfyniadau Cyn Cyhuddo*




| | 2007-08 | | 2008-09 | |
|---|---|---|---|---|
| | Nifer | % | Nifer | % |
| Cyhuddwyd | 187 | 67.0% | 292 | 65.8% |
| Cais am ragor o dystiolaeth | 2 | 0.7% | 5 | 1.1% |
| Dim erlyniad | 75 | 26.9% | 109 | 24.9% |
| Pob penderfyniad arall | 15 | 5.4% | 38 | 8.6% |
| **Cyfanswm** | **279** | | **444** | |


Rhoddwyd Cyhuddo Statudol ar waith yn llawn ar 3 Ebrill 2006

** Mae ffigurau a gynhwysir yn adroddiad 2007 – 08 yn hepgor yr achosion hynny ble na chafodd canlyniad y penderfyniad ei gasglu'n gyflawn yng nghofnodion y CPS. Er mwyn bod yn gyflawn, mae'r canlyniadau hynny wedi cael eu hychwanegu yn yr adroddiad presennol. Felly mae'r ffigurau uchod yn wahanol i'r rhai yn adroddiad y llynedd*

## Euogfarnau

Yn y ddwy flynedd yn diweddu Mawrth 2009, cafodd 576 o ddiffynyddion eu herlyn am droseddau casineb tuag at bobl anabl. Mae tabl a siart 2 isod yn dadansoddi'r canlyniadau, gan ddangos bod 76% o'r achosion a gwblhawyd wedi arwain at euogfarn yn 2008-09.

### Tabl 2 – - Erlyniadau a Gwblhawyd yn ôl Canlyniad





| | 2007-08 | | 2008-09 | |
|---|---|---|---|---|
| | Nifer | % | Nifer | % |
| Euogfarnau | 141 | 77.0% | 299 | 76.1% |
| Aflwyddiannus | 42 | 23.0% | 94 | 23.9% |
| **Cyfanswm** | **183** | | **393** | |


Mae'r tabl a'r siartiau isod yn dadansoddi erlyniadau yn fanwl ar gyfer troseddau casineb tuag at bobl anabl yn 2007-08 a 2008-09. Roedd pledion euog yn cynrychioli 61% o'r cyfanswm, sef cwymp o 11 pwynt canran ar 2007-08 pan blediodd 72% o'r holl ddiffynyddion yn euog. Fodd bynnag, parhaodd y gyfradd euogfarnu yn sefydlog ar 77% - 76%, yn bennaf oherwydd cynnydd mewn euogfarnau yn dilyn treial o 5.5% i 14.5%. Cododd yr erlyniadau a ollyngwyd gan y CPS, gan gynnwys terfynu achosion ac achosion ble na chynigiwyd tystiolaeth, o 15% o gyfanswm y canlyniadau i 18%.

## Tabl 3 – Canlyniadau Erlyn

### Euogfarnau




### Canlyniadau Aflwyddiannus




| | 2007-08 | | 2008-09 | |
|---|---|---|---|---|
| | Nifer | % | Nifer | % |
| Cwblhau Gwaith Gweinyddol | 0 | 0.0% | 2 | 0.5% |
| Traddodi a ryddhawyd | 1 | 0.5% | 5 | 1.3% |
| Erlyniadau a Ollyngwyd *gan gynnwys dirwyn achosion i ben, ni chynigiwyd tystiolaeth a thynnu'n ôl* | *27* | *14.8%* | *69* | *17.6%* |
| *o'u plith – ni chynigiwyd tystiolaeth* | *16* | *8.7%* | *41* | *10.4%* |
| Gwrthodwyd yn dilyn treial llawn | 12 | 6.6% | 11 | 2.8% |
| Dim achos i'w ateb | 0 | 0.0% | 3 | 0.8% |
| Barnwr yn cyfeirio i ryddfarnu | 0 | 0.0% | 1 | 0.3% |
| Rhyddfarnu gan reithgor | 2 | 1.1% | 3 | 0.8% |
| Canlyniadau Aflwyddiannus | 42 | 23.0% | 94 | 23.9% |
| Ple euog | 131 | 71.6% | 240 | 61.1% |
| Euogfarnu yn dilyn treial | 10 | 5.5% | 57 | 14.5% |
| Profwyd yn absenoldeb | 0 | 0.0% | 2 | 0.5% |
| Euogfarnau | 141 | 77.0% | 299 | 76.1% |
| **Cyfanswm Erlyniadau** | **183** | | **393** | |

## Erlyniadau aflwyddiannus

Gall achosion fethu am resymau tystiolaethol, am resymau budd y cyhoedd, oherwydd bod achos yn methu parhau, oherwydd bod achosion yn ddarostyngedig i gwblhau gwaith gweinyddol, ac am resymau eraill (gan gynnwys achosion yn arwain at rwymo a rhyddfarn yn dilyn treial). Yn 2008-09 y categori tystiolaethol oedd y mwyaf ar 56% o'r holl resymau dros ganlyniadau aflwyddiannus, sef cynnydd o dros 20 pwynt canran ar y 31% a gofnodwyd yn y flwyddyn flaenorol. Roedd 2% yn aflwyddiannus am resymau gweinyddol o gymharu â dim yn 2007-08; prin oedd y newid yn y gyfran aflwyddiannus am resymau budd y cyhoedd ar 7.4% o gymharu â 7.1% yn y cyfnod dan sylw; methwyd parhau ag 14%, sef gostyngiad ar yr 19% a gofnodwyd yn 2007-08 a bu cwymp yn yr achosion yn methu am resymau eraill o 43% i 20%.

Mae tabl 4 yn rhoi dadansoddiad manylach, gan ddangos y gyfran sy'n methu oherwydd rhesymau allweddol, gan gynnwys materion gyda dioddefwyr (gyda dioddefwr yn tynnu cyhuddiadau yn ôl, achosion ble methodd dioddefwr â mynychu gwrandawiad llys a ble nad oedd tystiolaeth y dioddefwyr yn cefnogi'r achos), y rhai ble'r oedd elfen gyfreithiol hanfodol ar goll, ble'r oedd gwrthdrawiad tystiolaeth, a'r rhai ble cafodd y diffynnydd ei ryddfarnu. O fewn y rhesymau allweddol hyn, elfen gyfreithiol hanfodol ar goll a rhyddfarnu yn dilyn treial oedd y categorïau unigol mwyaf ar 22% (cynnydd sylweddol ar y 2% a gofnodwyd yn y flwyddyn flaenorol) ac 13%, (gostyngiad sylweddol ar y 31% a gofnodwyd yn 2007-08), yn y drefn honno. O fewn materion dioddefwyr, bu cwymp yng nghyfrannau dioddefwyr yn tynnu cyhuddiadau yn ôl a dioddefwyr yn methu mynychu o 12% i 7% a 5% i 2%. Fodd bynnag, cododd achosion ble nad oedd tystiolaeth y dioddefwyr yn cefnogi'r achos o ychydig dan 5% i dros 6%. Cwympodd achosion a fethodd oherwydd rhesymau allweddol o 60% i 57%.

**Tabl 4 – Rhesymau Allweddol dros Erlyniadau Aflwyddiannus**





| | 2007-08 | | 2008-09 | |
|---|---|---|---|---|
| | Nifer | % | Nifer | % |
| Dioddefwr yn Tynnu Cyhuddiad yn ôl | 5 | 11.9% | 7 | 7.4% |
| Dioddefwr Ddim yn Mynychu | 2 | 4.8% | 2 | 2.1% |
| Tystiolaeth Dioddefwr ddim yn cefnogi achos | 2 | 4.8% | 6 | 6.4% |
| *Cyfanswm Materion gyda Dioddefwyr* | *9* | *21.4%* | *15* | *16.0%* |
| Gwrthdrawiad Tystiolaeth | 2 | 4.8% | 4 | 4.3% |
| Elfen Gyfreithiol Hanfodol ar Goll | 1 | 2.4% | 21 | 22.3% |
| Ditiad/Dedfryd Arall | 0 | 0.0% | 2 | 2.1% |
| Rhyddfarnu yn dilyn treial | 174 | 1.5% | 160 | 1.2% |
| *Cyfanswm Rhesymau Allweddol* | *25* | *59.5%* | *54* | *57.4%* |
| Pob Rheswm Arall | 17 | 40.5% | 38 | 40.4% |
| Cwblhau Gwaith Gweinyddol | 0 | 0.0% | 2 | 2.1% |
| **Cyfanswm** | **42** | | **94** | |


Mae tabl a siart 5 yn dangos bod materion sy'n ymwneud â dioddefwyr yn cynrychioli 15 diffynnydd, neu 4%, yn 2008-09. Roedd canlyniadau aflwyddiannus yn 24% o'r cyfanswm yn 2008-09 o gymharu â 23% yn 2007-08.

## Tabl 5 – Cymharu Rhesymau Allweddol dros Ganlyniadau Aflwyddiannus

### Rhesymau Allweddol mewn perthynas â phob canlyniad




### % Materion sy'n Ymwneud â Dioddefwyr




| | 2007-08 | | 2008-09 | |
|---|---|---|---|---|
| | Nifer | % | Nifer | % |
| *Cyfanswm Aflwyddiannus oherwydd materion dioddefwyr* | *9* | *4.9%* | *15* | *3.8%* |
| Cyfanswm Aflwyddiannus | 42 | 23.0% | 94 | 23.9% |
| Cyfanswm Euogfarnau | 141 | 77.0% | 299 | 76.1% |
| **Cyfanswm Erlyniadau** | **183** | | **393** | |

## Categori'r prif drosedd

Ar ddiwedd achosion, rhoddir Categori'r Prif Drosedd ar gyfer achos pob diffynnydd er mwyn dangos y math o gyhuddiadau a ddwynwyd a'u difrifoldeb.

Troseddau corfforol oedd y categori mwyaf niferus, gan gynrychioli 45% o erlyniadau am droseddau casineb tuag at bobl anabl yn 2008-09 sef gostyngiad ar y 53% a gofnodwyd y flwyddyn flaenorol. Roedd trefn gyhoeddus, dwyn a thrafod nwyddau wedi'u dwyn, troseddau rhywiol a lladrata yn gyfrifol am 11% pellach (13% yn 2007-08), 12% (8%), 7% (2%) a 6% (4%) yn y drefn honno. Bu cwmp yn y cyfraneddau a gofnodwyd fel bwrgleriaeth o 8% i 5%. Cofnodwyd patrwm tebyg ar gyfer dynion, gyda 44% yn cael eu categoreiddio yn droseddau corfforol, 12% yn rhai trefn gyhoeddus, 9% yn droseddau dwyn a thrafod nwyddau wedi'u dwyn, troseddau rhywiol 8%, a 7% yn lladrata. Roedd y patrwm fymryn yn wahanol ar gyfer menywod, gyda throseddau corfforol yn uwch ar 51%, tra bo trefn gyhoeddus yn is ar 9%. Roedd dwyn a thrafod nwyddau wedi'u dwyn yn llawer uwch ar 23%. Dynion oedd 77% o'r diffynyddion lle nodwyd mai troseddau corfforol oedd y brif drosedd, a menywod oedd 40% o'r diffynyddion yng nghategori'r trosedd dwyn a thrafod nwyddau wedi'u dwyn. Roedd y patrwm troseddau yn wahanol i'r patrwm ar gyfer troseddau casineb eraill, gyda lefel is o droseddau trefn gyhoeddus a chyfran uwch o droseddau eiddo (dwyn a thrafod nwyddau wedi'u dwyn, bwrgleriaeth a lladrata).


### Cydraddoldeb

#### *(i) Diffynyddion*

#### Rhyw

Mae tabl 6 yn dadansoddi rhyw diffynyddion. Dynion oedd 79% o'r diffynyddion a erlynwyd, sy'n is na llinynnau eraill trosedd casineb

### Tabl 6 – Erlyniadau a Gwblhawyd yn ôl Rhyw y Diffynnydd




| | 2007-08 | | 2008-09 | |
|---|---|---|---|---|
| | Nifer | % | Nifer | % |
| Menywod | 33 | 18.0% | 83 | 21.1% |
| Dynion | 150 | 82.0% | 310 | 78.9% |
| Ni wyddys | 0 | 0.0% | 0 | 0.0% |
| **Cyfanswm** | **183** | | **393** | |

### Ethnigrwydd

Bydd y CPS yn casglu data ethnigrwydd am ddiffynyddion yn unol â'r diffiniadau cytûn y System Cyfiawnder Troseddol ar gyfer yr 16+1 categori ethnig. Yn 2008-09, nodwyd bod 78% o ddiffynyddion trosedd casineb tuag at bobl anabl yn perthyn i'r categori Gwyn Prydeinig, a chafodd 79% eu categoreiddio fel Gwyn, o gymharu ag 83% ac 86% yn 2007-08. Nodwyd bod 2% o'r diffynyddion yn Asiaidd, a bod ychydig dros 7% yn Ddu o gymharu â 4% yn y flwyddyn flaenorol. Nid oedd 3% o ddiffynyddion wedi datgan eu hethnigrwydd wrth gael eu harestio.

### Data cydraddoldeb arall


Bu data am grefydd neu gred ac anabledd diffynyddion yn cael ei gasglu ers mis Ebrill 2007 ac mae cyflawnrwydd a chywirdeb y data hwn yn parhau i gael eu datblygu.

## *(ii) Dioddefwyr*

### Rhyw

Mae tabl 7 yn dadansoddi rhyw dioddefwyr. Fe ddaw data am ddioddefwyr o'r System Reoli Tystion, ac mae ar gael ar gyfer troseddau casineb tuag at bobl anabl o Ebrill 2007: fodd bynnag, mae cyflawnrwydd a chywirdeb y wybodaeth hon yn parhau i gael eu datblygu. O blith y dioddefwyr hynny y nodwyd eu rhyw yn 2008-09, roedd 55% yn fenywod. Mae hyn yn cyferbynnu â llinynnau eraill trosedd casineb ble'r oedd mwyafrif y dioddefwyr yn ddynion.

### Tabl 7 – Rhyw Dioddefwyr*




| | 2007-08 | | 2008-09 | |
|---|---|---|---|---|
| | Nifer | % | Nifer | % |
| Menywod | 30 | 20.8% | 106 | 37.9% |
| Dynion | 33 | 22.9% | 85 | 30.4% |
| Ni wyddys | 81 | 56.3% | 89 | 31.8% |
| **Cyfanswm** | **144** | | **280** | |

* Cafodd data o 2006-07 ei adrodd ar gyfer pob dioddefwyr boed sifiliaid ai peidio, ac mae data o 2007-08 ymlaen yn adrodd am ddioddefwyr sy'n sifiliaid yn unig.

### Data cydraddoldeb arall

Bydd data am ddioddefwyr yn cael ei dynnu o'r System Reoli Tystion. Y mae data am ethnigrwydd ar gael o Ebrill 2006, a data am grefydd neu gred ac anabledd o Ebrill 2007. Mae cyflawnrwydd a chywirdeb y wybodaeth hon yn parhau i gael eu datblygu ac ni chafodd ei chynnwys yn yr adroddiad presennol. Y mae gwaith ar y gweill ar gyfer 2009-10 i wella casglu data ac ansawdd y data.

## Gwasanaethau Trosedd Casineb tuag at Bobl Anabl

Cafodd y wybodaeth hon ei chasglu ers Ebrill 2007. O blith y dioddefwyr a thystion hynny a gyfeiriwyd at wasanaethau cefnogaeth neu asiantaeth arbenigol, ni chofnodwyd bod yr un wedi'i gyfeirio at 'asiantaeth arbenigol' benodol, tra bo 83% wedi'u cyfeirio at un ai asiantaeth cefnogi dioddefwyr neu dystion, ac 17% yn destun 'cyfeirio arall'; o gymharu â 32% a 68% yn y drefn honno yn 2007-08. Mae cyflawnrwydd a chywirdeb y wybodaeth hon yn parhau i gael eu datblygu.

## Atodiad 1

### Cyfanswm Trosedd Casineb

| | 2008-09 | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | Euogfarnau | | Aflwyddiannus | | CYFANSWM |
| | Nifer | % | Nifer | % | |
| **42 Rhanbarth** | **10,690** | **82.0%** | **2,340** | **18.0%** | **13,030** |
| Avon a Gwlad yr Haf | 309 | 84.7% | 56 | 15.3% | **365** |
| Swydd Bedford | 92 | 84.4% | 17 | 15.6% | **109** |
| Swydd Gaergrawnt | 75 | 82.4% | 16 | 17.6% | **91** |
| Sir Gaer | 181 | 81.9% | 40 | 18.1% | **221** |
| Cleveland | 114 | 83.8% | 22 | 16.2% | **136** |
| Cumbria | 103 | 83.7% | 20 | 16.3% | **123** |
| Swydd Derby | 176 | 77.9% | 50 | 22.1% | **226** |
| Dyfnaint a Chernyw | 106 | 76.3% | 33 | 23.7% | **139** |
| Dorset | 102 | 86.4% | 16 | 13.6% | **118** |
| Durham | 135 | 83.9% | 26 | 16.1% | **161** |
| Dyfed Powys | 45 | 84.9% | 8 | 15.1% | **53** |
| Essex | 218 | 84.2% | 41 | 15.8% | **259** |
| Swydd Gaerloyw | 103 | 80.5% | 25 | 19.5% | **128** |
| Manceinion Fwyaf | 1,080 | 83.2% | 218 | 16.8% | **1,298** |
| Gwent | 60 | 81.1% | 14 | 18.9% | **74** |
| Hampshire & IOW | 401 | 77.1% | 119 | 22.9% | **520** |
| Swydd Hertford | 182 | 80.9% | 43 | 19.1% | **225** |
| Glannau Humber | 122 | 83.0% | 25 | 17.0% | **147** |
| Caint | 238 | 81.2% | 55 | 18.8% | **293** |
| Swydd Gaerhirfryn | 508 | 84.0% | 97 | 16.0% | **605** |
| Swydd Gaerlŷr | 284 | 85.5% | 48 | 14.5% | **332** |
| Swydd Lincoln | 86 | 83.5% | 17 | 16.5% | **103** |
| Glannau Mersi | 293 | 74.4% | 101 | 25.6% | **394** |
| Llundain a Dinas Llundain | 1,432 | 77.2% | 424 | 22.8% | **1,856** |
| Norfolk | 150 | 88.8% | 19 | 11.2% | **169** |
| Swydd Northampton | 72 | 92.3% | 6 | 7.7% | **78** |
| Northumbria | 332 | 81.0% | 78 | 19.0% | **410** |
| Gogledd Cymru | 194 | 80.8% | 46 | 19.2% | **240** |
| Gogledd Swydd Efrog | 85 | 93.4% | 6 | 6.6% | **91** |
| Swydd Nottingham | 225 | 81.8% | 50 | 18.2% | **275** |
| De Cymru | 202 | 79.8% | 51 | 20.2% | **253** |
| De Swydd Efrog | 262 | 85.6% | 44 | 14.4% | **306** |
| Swydd Stafford | 201 | 84.5% | 37 | 15.5% | **238** |
| Suffolk | 130 | 86.1% | 21 | 13.9% | **151** |
| Surrey | 127 | 87.6% | 18 | 12.4% | **145** |
| Sussex | 313 | 82.6% | 66 | 17.4% | **379** |
| Dyffryn Tafwys | 346 | 81.4% | 9 | 18.6% | **425** |
| Swydd Warwig | 94 | 92.2% | 8 | 7.8% | **102** |
| Gorllewin Mersia | 200 | 86.6% | 31 | 13.4% | **231** |
| Gorllewin Canolbarth Lloegr | 801 | 84.6% | 146 | 15.4% | **947** |
| Gorllewin Swydd Efrog | 416 | 82.9% | 86 | 17.1% | **502** |
| Wiltshire | 95 | 84.8% | 17 | 15.2% | **112** |

## Digwyddiadau Hiliol a Chrefyddol

| | 2008-09 | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | Euogfarnau | | Aflwyddiannus | | CYFANSWM |
| | Nifer | % | Nifer | % | |
| **42 Rhanbarth** | **9,576** | **82.4%** | **2,048** | **17.6%** | **11,624** |
| Avon a Gwlad yr Haf | 273 | 84.5% | 50 | 15.5% | **323** |
| Swydd Bedford | 85 | 86.7% | 13 | 13.3% | **98** |
| Swydd Gaergrawnt | 63 | 80.8% | 15 | 19.2% | **78** |
| Sir Gaer | 155 | 82.0% | 34 | 18.0% | **189** |
| Cleveland | 105 | 84.7% | 19 | 15.3% | **124** |
| Cumbria | 83 | 85.6% | 14 | 14.4% | **97** |
| Swydd Derby | 135 | 77.6% | 39 | 22.4% | **174** |
| Dyfnaint a Chernyw | 89 | 76.1% | 28 | 23.9% | **117** |
| Dorset | 86 | 86.9% | 13 | 13.1% | **99** |
| Durham | 121 | 86.4% | 19 | 13.6% | **140** |
| Dyfed Powys | 39 | 86.7% | 6 | 13.3% | **45** |
| Essex | 205 | 84.4% | 38 | 15.6% | **243** |
| Swydd Gaerloyw | 92 | 83.6% | 18 | 16.4% | **110** |
| Manceinion Fwyaf | 996 | 83.3% | 200 | 16.7% | **1,196** |
| Gwent | 45 | 83.3% | 9 | 16.7% | **54** |
| Hampshire & IOW | 355 | 76.8% | 107 | 23.2% | **462** |
| Swydd Hertford | 167 | 80.7% | 40 | 19.3% | **207** |
| Glannau Humber | 102 | 81.6% | 23 | 18.4% | **125** |
| Caint | 208 | 81.6% | 47 | 18.4% | **255** |
| Swydd Gaerhirfryn | 462 | 83.2% | 93 | 16.8% | **555** |
| Swydd Gaerlŷr | 273 | 86.1% | 44 | 13.9% | **317** |
| Swydd Lincoln | 76 | 84.4% | 14 | 15.6% | **90** |
| Glannau Mersi | 247 | 73.3% | 90 | 26.7% | **337** |
| Llundain a Dinas Llundain | 1,302 | 77.8% | 372 | 22.2% | **1,674** |
| Norfolk | 124 | 89.2% | 15 | 10.8% | **139** |
| Swydd Northampton | 64 | 95.5% | 3 | 4.5% | **67** |
| Northumbria | 303 | 81.0% | 71 | 19.0% | **374** |
| Gogledd Cymru | 160 | 81.6% | 36 | 18.4% | **196** |
| Gogledd Swydd Efrog | 79 | 94.0% | 5 | 6.0% | **84** |
| Swydd Nottingham | 215 | 82.4% | 46 | 17.6% | **261** |
| De Cymru | 184 | 79.7% | 47 | 20.3% | **231** |
| De Swydd Efrog | 238 | 86.9% | 36 | 13.1% | **274** |
| Swydd Stafford | 178 | 85.6% | 30 | 14.4% | **208** |
| Suffolk | 113 | 85.6% | 19 | 14.4% | **132** |
| Surrey | 112 | 87.5% | 16 | 12.5% | **128** |
| Sussex | 250 | 82.5% | 53 | 17.5% | **303** |
| Dyffryn Tafwys | 319 | 82.0% | 70 | 18.0% | **389** |
| Swydd Warwig | 89 | 93.7% | 6 | 6.3% | **95** |
| Gorllewin Mersia | 177 | 87.2% | 26 | 12.8% | **203** |
| Gorllewin Canolbarth Lloegr | 732 | 84.8% | 131 | 15.2% | **863** |
| Gorllewin Swydd Efrog | 385 | 83.3% | 77 | 16.7% | **462** |
| Wiltshire | 90 | 84.9% | 16 | 15.1% | **106** |

## Trosedd Homoffobig

| | 2008-09 | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | Euogfarnau | | Aflwyddiannus | | CYFANSWM |
| | Nifer | % | Nifer | % | |
| **42 Rhanbarth** | **815** | **80.5%** | **198** | **19.5%** | **1,013** |
| Avon a Gwlad yr Haf | 28 | 84.8% | 5 | 15.2% | **33** |
| Swydd Bedford | 6 | 66.7% | 3 | 33.3% | **9** |
| Swydd Gaergrawnt | 10 | 90.9% | 1 | 9.1% | **11** |
| Sir Gaer | 21 | 84.0% | 4 | 16.0% | **25** |
| Cleveland | 7 | 77.8% | 2 | 22.2% | **9** |
| Cumbria | 19 | 76.0% | 6 | 24.0% | **25** |
| Swydd Derby | 14 | 93.3% | 1 | 6.7% | **15** |
| Dyfnaint a Chernyw | 14 | 93.3% | 1 | 6.7% | **15** |
| Dorset | 14 | 87.5% | 2 | 12.5% | **16** |
| Durham | 9 | 64.3% | 5 | 35.7% | **14** |
| Dyfed Powys | 6 | 75.0% | 2 | 25.0% | **8** |
| Essex | 9 | 75.0% | 3 | 25.0% | **12** |
| Swydd Gaerloyw | 8 | 80.0% | 2 | 20.0% | **10** |
| Manceinion Fwyaf | 62 | 81.6% | 14 | 8.4% | **76** |
| Gwent | 10 | 83.3% | 2 | 16.7% | **12** |
| Hampshire & IOW | 28 | 73.7% | 10 | 26.3% | **38** |
| Swydd Hertford | 14 | 87.5% | 2 | 12.5% | **16** |
| Glannau Humber | 11 | 84.6% | 2 | 15.4% | **13** |
| Caint | 24 | 75.0% | 8 | 25.0% | **32** |
| Swydd Gaerhirfryn | 42 | 93.3% | 3 | 6.7% | **45** |
| Swydd Gaerlŷr | 8 | 80.0% | 2 | 20.0% | **10** |
| Swydd Lincoln | 4 | 66.7% | 2 | 33.3% | **6** |
| Glannau Mersi | 40 | 80.0% | 10 | 20.0% | **50** |
| Llundain a Dinas Llundain | 104 | 74.8% | 35 | 25.2% | **139** |
| Norfolk | 19 | 86.4% | 3 | 13.6% | **22** |
| Swydd Northampton | 6 | 66.7% | 3 | 33.3% | **9** |
| Northumbria | 18 | 78.3% | 5 | 21.7% | **23** |
| Gogledd Cymru | 25 | 73.5% | 9 | 26.5% | **34** |
| Gogledd Swydd Efrog | 5 | 83.3% | 1 | 16.7% | **6** |
| Swydd Nottingham | 8 | 72.7% | 3 | 27.3% | **11** |
| De Cymru | 14 | 93.3% | 1 | 6.7% | **15** |
| De Swydd Efrog | 18 | 78.3% | 5 | 21.7% | **23** |
| Swydd Stafford | 14 | 87.5% | 2 | 12.5% | **16** |
| Suffolk | 14 | 87.5% | 2 | 12.5% | **16** |
| Surrey | 13 | 86.7% | 2 | 13.3% | **15** |
| Sussex | 42 | 85.7% | 7 | 14.3% | **49** |
| Dyffryn Tafwys | 19 | 73.1% | 7 | 26.9% | **26** |
| Swydd Warwig | 2 | 50.0% | 2 | 50.0% | **4** |
| Gorllewin Mersia | 16 | 80.0% | 4 | 20.0% | **20** |
| Gorllewin Canolbarth Lloegr | 43 | 89.6% | 5 | 10.4% | **48** |
| Gorllewin Swydd Efrog | 22 | 71.0% | 9 | 29.0% | **31** |
| Wiltshire | 5 | 83.3% | 1 | 16.7% | **6** |

## Trosedd Casineb tuag at Bobl Anabl

| | 2008-09 | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | Euogfarnau | | Aflwyddiannus | | CYFANSWM |
| | Nifer | % | Nifer | % | |
| **42 Rhanbarth** | **299** | **76.1%** | **94** | **23.9%** | **393** |
| Avon a Gwlad yr Haf | 8 | 88.9% | 1 | 11.1% | **9** |
| Swydd Bedford | 1 | 50.0% | 1 | 50.0% | **2** |
| Swydd Gaergrawnt | 2 | 100.0% | 0 | 0.0% | **2** |
| Sir Gaer | 5 | 71.4% | 2 | 28.6% | **7** |
| Cleveland | 2 | 66.7% | 1 | 33.3.% | **3** |
| Cumbria | 1 | 100.0% | 0 | 0.0% | **1** |
| Swydd Derby | 27 | 73.0% | 10 | 27.0% | **37** |
| Dyfnaint a Chernyw | 3 | 42.9% | 4 | 57.1% | **7** |
| Dorset | 2 | 66.7% | 1 | 33.3% | **3** |
| Durham | 5 | 71.4% | 2 | 28.6% | **7** |
| Dyfed Powys | 0 | 0.0% | 0 | 0.0% | **0** |
| Essex | 4 | 100.0% | 0 | 0.0% | **4** |
| Swydd Gaerloyw | 3 | 37.5% | 5 | 62.5% | **8** |
| Manceinion Fwyaf | 22 | 84.6% | 4 | 15.4% | **26** |
| Gwent | 5 | 62.5% | 3 | 37.5% | **8** |
| Hampshire & IOW | 18 | 90.0% | 2 | 10.0% | **20** |
| Swydd Hertford | 1 | 50.0% | 1 | 50.0% | **2** |
| Glannau Humber | 9 | 100.0% | 0 | 0.0% | **9** |
| Caint | 6 | 100.0% | 0 | 0.0% | **6** |
| Swydd Gaerhirfryn | 4 | 80.0% | 1 | 20.0% | **5** |
| Swydd Gaerlŷr | 3 | 60.0% | 2 | 40.0% | **5** |
| Swydd Lincoln | 6 | 85.7% | 1 | 14.3% | **7** |
| Glannau Mersi | 6 | 85.7% | 1 | 14.3% | **7** |
| Llundain a Dinas Llundain | 26 | 60.5% | 17 | 39.5% | **43** |
| Norfolk | 7 | 87.5% | 1 | 12.5% | **8** |
| Swydd Northampton | 2 | 100.0% | 0 | 0.0% | **2** |
| Northumbria | 11 | 84.6% | 2 | 15.4% | **13** |
| Gogledd Cymru | 9 | 90.0% | 1 | 10.0% | **10** |
| Gogledd Swydd Efrog | 1 | 100.0% | 0 | 0.0% | **1** |
| Swydd Nottingham | 2 | 66.7% | 1 | 33.3% | **3** |
| De Cymru | 4 | 57.1% | 3 | 42.9% | **7** |
| De Swydd Efrog | 6 | 66.7% | 3 | 33.3% | **9** |
| Swydd Stafford | 9 | 64.3% | 5 | 35.7% | **14** |
| Suffolk | 3 | 100.0% | 0 | 0.0% | **3** |
| Surrey | 2 | 100.0% | 0 | 0.0% | **2** |
| Sussex | 21 | 77.8% | 6 | 22.2% | **27** |
| Dyffryn Tafwys | 8 | 80.0% | 2 | 20.0% | **10** |
| Swydd Warwig | 3 | 100.0% | 0 | 0.0% | **3** |
| Gorllewin Mersia | 7 | 87.5% | 1 | 12.5% | **8** |
| Gorllewin Canolbarth Lloegr | 26 | 72.2% | 10 | 27.8% | **36** |
| Gorllewin Swydd Efrog | 9 | 100.0% | 0 | 0.0% | **9** |
| Wiltshire | 0 | 0.0% | 0 | 0.0% | **0** |

# Geirfa

## Troseddau casineb

| | |
|---|---|
| Digwyddiadau Hiliol a Chrefyddol: | digwyddiad hiliol neu grefyddol yw unrhyw ddigwyddiad a ganfyddir yn un hiliol neu grefyddol gan y dioddefwr neu unrhyw un arall. |
| Trosedd Homoffobig: | unrhyw ddigwyddiad a ganfyddir yn un homoffobig neu drawsffobig gan y dioddefwr neu gan unrhyw un arall. |
| Digwyddiadau Anabledd: | unrhyw ddigwyddiad a ganfyddir, gan y dioddefwr neu unrhyw un arall, yn ddigwyddiad ar sail rhagfarn, neu gasineb tuag at y dioddefwr oherwydd ei anabledd. |
| **Baneri Monitro:** | bydd mathau senstif o achosion yn cael eu nodi trwy gyfrwng nifer o faneri monitro, a roddir ar achosion perthnasol ar y cam cyn cyhuddo. Trwy gyfrwng y baneri, gall rheolwyr foniro trafodion yn ystod oes yr erlyniad, a gellir adrodd am y canlyniad ar ôl diwedd yr achos. |

## Canlynisdau achosion

| | |
|---|---|
| **Penderfyniadau Cyn Cyhuddo:** | Ym mhob achos heblaw'r rhai lleiaf, a lle rhagwelir ple euog, Erlynwyr y Goron sy'n gyfrifol am benderfynu a ddylid cyhuddo rhywun o drosedd ai peidio, ac os dylid, pa drosedd a ddewisir, yn unol â Chanllawiau'r Cyfarwyddwr. |
| Wedi'i gyhuddo: | achosion lle penderfynodd y CPS y dylid cyhuddo. |
| Cais am dystiolaeth bellach: | ble gwneir cais am ragor o wybodaeth neu weithredu, neu lle'r ystyrir hynny'n angenrheidiol. |
| Dim erlyniad: | achosion lle bydd y CPS yn penderfynu na ddylid erlyn, am resymau tystiolaethol neu am resymau budd y cyhoedd. |
| Pob penderfyniad arall: | ble rhoddir rhybuddiad, cerydd neu rybudd terfynol; ble cafodd y trosedd ei ystyried mewn perthynas â chyhuddiadau eraill; neu lle methodd y diffynnydd ateb i fechnïaeth a bod gwarant wedi'i chyflwyno. |
| **Erlyniadau:** | yr holl ddiffynyddion a gyhuddwyd neu a dderbyniodd wŷs ac y cwblhawyd yr achos yn llys yr ynadon neu Lys y Goron yn ystod y cyfnod, gan gynnwys y rhai a aeth ymlaen i dreial neu bledio'n euog, y rhai a derfynwyd a'r rhai na ellid bwrw ymlaen â nhw. |
| Canlyniadau Aflwyddiannus: | yr holl erlyniadau a gwblhawyd ble na chafodd y diffynnydd ei euogfarnu, sy'n cynnwys y canlynol: |
| Cwblhau Gwaith Gweinyddol: | ble na all erlyniad fwrw ymlaen oherwydd bod diffynnydd wedi methu ymddangos mewn llys ac y cyflwynwyd gwarant gan y Fainc i'w arestio ef neu hi; neu fod y diffynnydd wedi marw, neu wedi'i gael yn anffit i bledio: neu ble bydd achosion yn cael eu gohirio yn amhenodol. |

Traddodi a ryddhawyd: ryddhawyd: achosion traddodi ble bydd y diffynnydd yn cael ei ryddhau.

Terfynu a thynnu'n ôl: O ystyried y dystiolaeth a budd y cyhoedd, gall y CPS benderfynu terfynu achosion ar unrhyw adeg cyn dechrau'r treial. Yma fe gynhwysir achosion a derfynir yn ffurfiol cyn y gwrandawiad, y rhai ble na chynigiwyd unrhyw dystiolaeth, a'r rhai a dynnir yn ôl yn y llys. Yma hefyd cynhwysir achosion lle cafodd y diffynnydd ei rwymo i gadw'r heddwch.

Gwrthod ar ôl treial llawn: achosion ble bydd y diffynnydd yn pledio'n ddi-euog ac y bydd yr ynadon yn gwrthod yr achos ar ôl gwrando achos yr amddiffyniad.

Dim achos i'w ateb: achosion ble bydd y diffynnydd yn pledio'n ddi-euog ac y gwrandewir tystiolaeth yr erlyniad, ond y gwrthodir yr achos gan yr ynadon heb wrando achos yr amddiffyniad.

Barnwr yn cyfeirio i ryddfarnu: achosion ble bydd y canlynol yn digwydd: ar ddiwedd achos yr erlyniad yn erbyn y diffynnydd, gwneir argymhelliad llwyddiannus o 'ddim achos' neu 'anniogel' ar ran y diffynnydd, ac y bydd y barnwr yn cyfarwyddo rhyddfarn yn hytrach na chaniatáu i'r achos gael ei benderfynu gan y rheithgor.

Rhyddfarnu gan reithgor: pan fydd y diffynnydd yn pledio'n ddi-euog ac, yn dilyn treial, yn cael ei ryddfarnu gan y rheithgor

Euogfarnau: achos lle ceir y diffynnydd yn euog yn dilyn erlyniad, sy'n cynnwys:

Ple euog: lle bydd y diffynnydd yn pledio'n euog.

Euogfarn yn dilyn treial: achosion ble bydd y diffynnydd yn pledio'n ddi-euog, ond yn cael ei ddyfarnu'n euog ar ôl gwrando'r dystiolaeth.

Prawf yn absenoldeb: Troseddau llai yw'r rhain – materion moduro yn bennaf - a glywir gan y llys yn absenoldeb y diffynnydd.

**Categorïau Rhesymau dros Ganlyniadau Aflwyddiannus**

Tystiolaethol: ble bo'r erlynydd yn penderfynu nad oes digon o dystiolaeth i roi gobaith realistig o euogfarn.

Budd y cyhoedd: ble'r ystyrir bod digon o dystiolaeth, ond bod yr erlynydd yn penderfynu bod ffactorau budd y cyhoedd yn erbyn erlyn.

Methu parhau: lle bo'r dystiolaeth a budd y cyhoedd yn cefnogi erlyniad, ond fod amgylchiadau yn ei gwneud hi'n amhosib i'r achos fynd yn ei flaen.

Rhesymau eraill: ble bydd y diffynnydd yn cael ei rwymo, rhyddfarnu neu wrthod ar ôl treial, neu ble nad oes unrhyw ddewis arall yn briodol.

Cwblhau gwaith gweinyddol: pan na all erlyniad fynd yn ei flaen oherwydd bod diffynnydd wedi methu ymddangos yn y llys a Gwarant gan y Fainc wedi'i chyflwyno i'w arestio ef neu hi; neu fod y diffynnydd wedi marw; neu wedi'i gael yn anffit i bledio: neu lle bo trafodion yn cael eu gohirio yn amhenodol.

**Rhesymau dros Ganlyniadau Aflwyddiannus**

| | |
|---|---|
| Dioddefwr yn tynnu cyhuddiadau yn ô: | ble bo tystiolaeth y dioddefwr yn cefnogi achos yr erlyniad, y dioddefwr yn gwrthod cael ei alw i dystio, neu'n tynnu'n ôl, neu'n tynnu'r gŵyn yn ôl. |
| Dioddefwr ddim yn mynychu: | gelwir y dioddefwr yn dyst mewn treial, ond bydd yn methu mynychu'r llys. |
| Tystiolaeth y dioddefwr ddim yn cefnogi'r acho: | nid yw tystiolaeth y dioddefwr am y trosedd yn cefnogi erlyn y diffynnydd, gan arwain at ganlyniad aflwyddiannus, ond nad yw'r dioddefwr, serch hynny, ddim wedi tynnu'n ôl. |
| Gwrthdrawiad tystiolaeth: | bydd gwrthddweud yn nhystiolaeth yr erlyniad yn arwain at erlyniad aflwyddiannus. |
| Elfen gyfreithiol hanfodol: | ni all yr erlyniad barhau oherwydd bod elfen gyfreithiol hanfodol ar goll o achos yr erlyniad. |
| Ditiad neu ddedfryd arall: | nid yw'r achos yn mynd yn ei flaen oherwydd bod yr un diffynnydd un ai'n wynebu ditiadau eraill, neu ddedfrydau mewn cysylltiad ag achosion eraill. |
| **Categori'r prif drosedd:** | bydd troseddau a gyhuddir yn cael eu dyrannu i un o ddeuddeg categori trosedd er mwyn dangos y math o drosedd a difrifoldeb y cyhuddiadau a ddwynir yn erbyn y diffynnydd. |

**Gallwch lawrlwytho rhagor o gopïau o'r adroddiad hwn mewn PDF Adobe Acrobat ar wefan y CPS http//www.cps.gov.uk**

Argraffwyd gan Blackburns of Bolton